research in practice

Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

PECYN ADNODDAU

# Cyfiawnder Teuluol – Pwysigrwydd Tystiolaeth

Dartington

Datblygwyd o Evidence Matters gan Jane Lewis a Nicole Erlen (2012)

Addaswyd ar gyfer Cymru am y tro cyntaf gan Julie Doughty ac Ann James (2013)

Diweddarwyd gan Julie Doughty a Non Davies (2018)

Golygu: Steve Flood a Susannah Bowyer

Ffotograffiaeth: Harmit Kambo, Alice Carfrae a James Lewis

© Research in Practice a Gofal Cymdeithasol Cymru Mawrth 2018

Gyda diolch i Lys Achosion Teulu Llundain Fewnol am gael defnyddio'i adeilad i dynnu lluniau ar gyfer y llyfryn hwn.

Diolch i grŵp llywio'r prosiect hwn am adolygiad gan gymheiriaid, deunydd astudiaethau achos a thrafodaeth a chefnogaeth arall fuddiol iawn sy'n sail i'r gwaith:

Ian Thomas; Anne Flanagan; Gareth Jenkins; Julie May; Lucy Moore; Allison Hulme; Lucy Treby; Tom Slater

Diolch i Sioned Williams am adolygu'r cyfieithiad Cymraeg.

Mae'r pecyn adnoddau hwn yn seiliedig ar ddeunydd a luniwyd ac a gyhoeddwyd gan Research in Practice yn 2012, yn dilyn blynyddoedd o gydweithio gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill. Yn 2004 daeth grŵp o asiantaethau at ei gilydd i gasglu a datblygu deunydd dysgu yn ymwneud â defnydd gweithwyr cymdeithasol o ymchwil yn y llys teulu. Yn dilyn hynny treialwyd casgliad o offer a chanllawiau gan 11 o asiantaethau ac fe'u cyhoeddwyd fel llawlyfr ymarferol yn 2008 (Eccles ac Erlen). Cyhoeddwyd fersiwn diwygiedig wedi'i ddiweddaru yn Lloegr yn 2012 (Lewis ac Erlen). Comisiynwyd yr argraffiad cyntaf ar gyfer Cymru gan Gyngor Gofal Cymru yn 2013. Mae argraffiad 2018 ar gyfer Cymru yn ystyried pwyntiau a ddysgwyd yn dilyn y defnydd o'r adnoddau cynharach hynny. Mae hefyd yn adlewyrchu'r newidiadau sylweddol, o safbwynt y gyfraith a pholisi, sy'n dal i ddylanwadu ar waith cymdeithasol a chyfiawnder teuluol. Y gyfraith y cyfeirir ati yn y pecyn adnoddau hwn yw'r gyfraith a oedd mewn grym yn Ebrill 2018.

**Ar gyfer pwy mae'r adnodd?**

Bwriadwyd y pecyn adnoddau hwn yn bennaf ar gyfer:

1. **Gweithwyr cymdeithasol**
2. **Goruchwylwyr a rheolwyr gwaith cymdeithasol** (sy'n cael eu hannog i ddefnyddio'r adnoddau hyn mewn sesiynau goruchwylio, wrth drafod achosion ac wrth hyfforddi timau)
3. **Rheolwyr datblygu gweithlu ac addysgwyr gwaith cymdeithasol** (i gefnogi hyfforddiant gwaith cymdeithasol cychwynnol, lleoliadau gwaith, hyfforddiant ôl-gymhwyso, hyfforddiant sgiliau llys, datblygiad proffesiynol parhaus a mentora a goruchwylio).

Bydd yr adnodd yn ddefnyddiol hefyd i randdeiliaid allweddol eraill sy'n ymarfer mwn llysoedd teulu: **cynghorwyr cyfreithiol awdurdodau lleol** (er mwyn ysgogi trafodaeth a datblygu dealltwriaeth gyffredin rhwng gweithwyr cymdeithasol a'u timau cyfreithiol ynglyn â defnydd priodol o ymchwil); **cynghorwyr llysoedd teulu Cafcass Cymru** (a elwir yn 'swyddogion achosion teuluol Cymru' mewn deddfwriaeth); **cyfreithwyr, bargyfreithwyr a'u sefydliadau proffesiynol; y Cyngor Cyfiawnder Teuluol; Byrddau Cyfiawnder Teuluol a'r Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol a thystion arbenigol.**

Bydd yr adnoddau'n ysgogi gwell dealltwriaeth ar draws y gwahanol broffesiynau o arbenigedd gwaith cymdeithasol, a sut i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r arbenigedd hwn yn y llys, a bydd o ddiddordeb penodol i bwyllgorau hyfforddiant rhyngddisgyblaethol Byrddau Cyfiawnder Teuluol lleol.

**Beth sydd yn y pecyn adnoddau?**

**Y llawlyfr hwn:** sy'n ymdrin ag (i) y nodweddion polisi a chyfreithiol sy'n esblygu yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a (ii) trosolwg o gwmpas arbenigedd gwaith cymdeithasol.

Tri **Briff Ymarfer** i helpu gweithwyr cymdeithasol rheng flaen, eu rheolwyr ac asiantaethau i ddatblygu a chyfnerthu eu hymarfer wrth ddefnyddio tystiolaeth ymchwil yn y llys teulu:

1. **Briff Ymarfer 1** *Tystiolaeth a Safon Profi yn y Llys Teulu* - yn edrych ar y mathau o dystiolaeth y gellir eu cyflwyno i'r llys a'r pwysoliad a roddir iddynt, a rolau'r gweithiwr cymdeithasol a'r tyst arbenigol. Cydnabyddir y gallai gwahanol lysoedd yng Nghymru fod yn defnyddio gwahanol ddulliau gweithredu; nod y Briff hwn yw nodi egwyddorion ymarfer da sy'n berthnasol i bawb.

2. **Briff Ymarfer 2** *Ymchwil ac Ymarfer Seiliedig ar Dystiolaeth* – bydd yn eich helpu i fyfyrio ar yr hyn y mae ymchwil yn ei olygu, dod yn gyfarwydd â chysyniadau ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac ystyried sut beth yw hyn yn ymarferol.

3. **Briff Ymarfer 3** – *Dadansoddi ac Asesu* – yn cynnwys pwyntiau cryno i helpu i ddatblygu'r agweddau hollbwysig hyn ar ymarfer gwaith cymdeithasol yn y broses cyn-achos ac yn y llys teulu.

## Offer:

Ymarferion a rhestrau gwirio i'ch helpu i gymhwyso deunydd o'r pecyn hwn mewn sesiynau goruchwylio, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol unigol.

## Ffocws ar Ymarfer:

enghreifftiau, syniadau ac ysbrydoliaeth.

## Cloddio'n Ddyfnach:

yn eich cyfeirio at ragor o wybodaeth ar wefannau cysylltiedig, cyhoeddiadau defnyddiol neu sefydliadau eraill. Gallwch ddod o hyd i lawer o adnoddau o'r fath ar: https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/cyfiawnder-teuluol

## Clipiau ffilm ar-lein:

Mae clipiau ffilm o senarios croesholi sydd ar wefan Research in Practice yn dangos pethau i'w gwneud, a phethau i beidio â'u gwneud, wrth ddefnyddio ymchwil yn y llys. Mae'r clipiau'n dangos barnwr, bargyfreithiwr teulu a gweithiwr cymdeithasol awdurdod lleol yn actio sefyllfaoedd a allai godi wrth ddefnyddio ymchwil mewn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar a roddir yn y llys: www.rip.org.uk/resources/video-resources

# Cynnwys

2. Cyflwyniad

3. Ymchwil yn y llys teulu - consensws cymwysedig

4. Cynhyrchu, defnyddio ac ymgorffori ymchwil - Yr Arsyllfa Cyfiawnder Teulu

7. Y dirwedd ddeddfwriaethol yng Nghymru

11. Diwygio mewn cyfiawnder teuluol - system sy'n esblygu

13. Rhoi diwygiadau cyfiawnder teuluol ar waith

18. Amseroldeb yr achos

19. Cyfrol yr achosion a'r Adolygiad Argyfwng Gofal

20. Amlinelliad y Gyfraith Gyhoeddus Ddiwygiedig

22. Proses cyn-achos effeithiol

30. Tryloywder a llys y teulu

32. Canllawiau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol mewn dyfarniadau llys diweddar

37. Paramedrau arbenigedd gwaith cymdeithasol

38. Negeseuon allweddol

38. Paramedrau arbenigedd gwaith cymdeithasol mewn perthynas â gwaith llys

39. Sgiliau a Gwybodaeth Cyfiawnder Teuluol Craidd

41. Datblygu gwaith cymdeithasol fel proffesiwn

42. Y Fframwaith Cymwysterau ar gyfer Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru

43. Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol

44. Safonau i gyflogwyr

45. Canlyniadau Dysgu Hyfforddiant Gwaith Cymdeithasol

47. Fframwaith Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus (DAPP)

50. Cyfeiriadau

# Cyflwyniad

## Cefndir argraffiad 2018

**Yng nghanol yr holl ddiwygiadau a'r dadleuon brwd ynglyn â chyfiawnder teuluol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, un pwynt y mae consensws cynyddol arno yw bod gan well defnydd o ddata ac ymchwil empirig ran bwysig i'w chwarae er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau yn y llysoedd teulu.**

**Mae'r adnodd hwn yn edrych ar un agwedd ar hyn, sef rôl gweithwyr cymdeithasol, a'r sefydliadau maen nhw'n gweithio ynddyn nhw, yn natblygiad ymarfer seiliedig ar dystiolaeth yn y broses cyn-achos ac yn y llys teulu er mwyn eu galluogi i:**

- Wneud y penderfyniadau gorau posibl wrth weithio gyda theuluoedd, cyn a chan gynnwys gwaith ar gyfer achosion gofal.
- Defnyddio ymchwil mewn asesiadau ac wrth gynllunio gofal i wneud penderfyniadau deallus.
- Cynyddu eu hyder a'u cymhwysedd, a thrwy hynny gynyddu hyder mewn arbenigedd gwaith cymdeithasol ar draws y system cyfiawnder teuluol yn ei chyfanrwydd.

Cyhoeddwyd argraffiad 2018, a fersiynau cynharach o'r adnodd hwn, o ganlyniad i faterion a phryderon cysylltiedig a oedd yn codi'n gyson:

- Pryder ynglŷn â hyd achosion gofal, a arweiniodd at ddiwygiadau deddfwriaethol yn 2014.
- Cynnydd sydyn a chyson yn nifer y ceisiadau gofal er 2007.
- Profiadau cymysg o agweddau at arbenigedd gwaith cymdeithasol yn y llys, a pha mor dda y mae gweithwyr cymdeithasol yn cyflwyno achosion a chasgliadau.
- Pryder parhaus ynglŷn ag ansawdd y dadansoddi wrth asesu ac wrth gynllunio gofal.
- Pryder yn adrannau cyfreithiol rhai awdurdodau lleol, ac ymhlith rheolwyr gwaith cymdeithasol, ynglŷn â'r defnydd o ymchwil mewn adroddiadau llys a thystiolaeth lafar – yn ôl rhai gweithwyr cymdeithasol nid yw ymchwil yn cael ei argymell ar unrhyw gyfrif.
- Ymatebion cymysg mewn llysoedd pan mae gweithwyr cymdeithasol yn defnyddio ymchwil yn y modd hwn.
- Pryder ynglŷn â gorddibyniaeth ar adroddiadau arbenigwyr mewn achosion gofal. Mae diwygiadau deddfwriaethol 2014 wedi arwain at fwy o ddibyniaeth mewn llysoedd ar dystiolaeth gan weithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol a Cafcass Cymru.
- Dadl ynglŷn â sicrhau'r cydbwysedd cywir wrth wneud penderfyniadau rhwng mabwysiadu ac opsiynau eraill er mwyn cael sefydlogrwydd.

## Ymchwil yn y llys teulu – consensws amodol

**Mae gwaith Research in Practice dros nifer o flynyddoedd yn dangos dadleuon amrywiol o blaid ac yn erbyn defnyddio ymchwil yn y llys teulu. Yn gyffredinol, mae consensws yn y sector (yn cael ei adlewyrchu mewn agweddau at hyfforddiant gwaith cymdeithasol; safonau gwella ôl-gymhwyso; arolygu a gwella gwasanaethau) bod defnyddio damcaniaethau ac ymchwil yn elfen hanfodol o ymarfer a phrosesau gwneud penderfyniadau mewn gwaith cymdeithasol. Mae defnyddio ymchwil yn y llys teulu yn rhan o ddarlun ehangach lle mae ymchwil yn sail i ymarfer, datblygu polisïau ac arwain ymarfer er mwyn datblygu ansawdd ymarfer yn gyffredinol. Er hyn, mae heriau yn ogystal â chyfleoedd yma, a gafodd eu crynhoi'n dda yng nghanfyddiadau astudiaeth gwmpasu'r Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol (gweler isod):**

- Roedd rhanddeiliaid[1] yn disgrifio rôl glir i dystiolaeth ymchwil, ac roeddent yn cytuno bod gwell defnydd o ddata gweinyddol[2] yn hanfodol fel sail i ddatblygu polisïau a chynllunio systemau. Y prif faterion a nodwyd oedd amrywioldeb lleol a rhanbarthol, a newidiadau dros gyfnod yn deillio o ddatblygiadau sylweddol mewn polisi a deddfwriaeth.
- Roedd rhanddeiliaid yn teimlo y gellid gwneud llawer gwell defnydd o botensial data gweinyddol i ddarparu gwybodaeth am ganlyniadau i blant. Roedd ymarferwyr rheng flaen yn dweud yn gyson y byddai gwell defnydd o ddata cenedlaethol yn eu galluogi i fod yn fwy hyderus wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â dyfodol plant. Er enghraifft, roeddent yn cyfeirio at effaith gwahanol benderfyniadau llysoedd teulu ar les plant, sefydlogrwydd ac ansawdd gofal i blant, a chyfleoedd plant mewn bywyd dros gyfnod.
- Cydnabyddid bod hyfforddiant mewn ymchwil i ddatblygiad a lles plant yn amrywio mewn gwahanol grwpiau proffesiynol ac mewn gwahanol sefydliadau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr yn bendant bod gwybodaeth gefndir am les plant yn dylanwadu ar eu ffordd o feddwl, ond roeddent yn cydnabod bod cyflwyniadau i'r llys yn amrywio'n fawr, o ran y graddau roeddent yn darparu dadansoddiad clir o anghenion plant, neu'n cyflwyno dadleuon da dros gynlluniau gofal.
- Roedd cryn dipyn o ddadlau ymhlith rhanddeiliaid ynglŷn â chyflwyno astudiaethau ymchwil penodol neu ddarnau o waith ymchwil mewn dadl yn y llys teulu. Roedd gweithwyr cymdeithasol yn ofni cael eu croesholi os oeddent yn cyfeirio'n

[1] Bu amrywiaeth eang o randdeiliaid yng Nghymru a Lloegr yn cymryd rhan yn yr astudiaeth gwmpasu, gan gynnwys cyfreithwyr, bargyfreithwyr, barnwyr, gweithwyr cymdeithasol a sefydliadau a oedd yn cynrychioli partïon mewn achosion.

[2] Mae data gweinyddol yn wybodaeth am weithgaredd sefydliadol neu bobl sy'n cael ei chasglu fel mater o drefn gan asiantaethau (er enghraifft, awdurdodau lleol, Cafcass Cymru neu'r llysoedd) neu'r llywodraeth. Gall dadansoddiad ohonynt gan ymchwilwyr fod yn ffordd gyflym ac effeithiol o ddeall sut mae'r system cyfiawnder teuluol yn gweithio.

uniongyrchol at ymchwil, tra roedd cyfreithwyr, bargyfreithwyr a barnwyr yn teimlo y byddai'n well i'r math hwn o wybodaeth 'all-gyfreithiol' gael ei gyflwyno gan arbenigwr y rhoddwyd cyfarwyddyd iddo ar sail arbenigedd penodol.

> Cafwyd disgrifiadau cyson gan ymarferwyr o nifer o rwystrau, sy'n helpu i egluro'r defnydd cyfyngedig ac ansicr o dystiolaeth ymchwil: prinder amser i edrych ar dystiolaeth ymchwil; gwaith ymchwil sydd wedi'i gyhoeddi yn aml iawn wedi'i gloi y tu ôl i furiau tâl; anodd dod o hyd i'r wybodaeth rydych yn chwilio amdani yng nghanol yr holl ymchwil sydd ar gael; dim llawer o hyder neu allu i asesu ansawdd a pherthnasedd tystiolaeth ymchwil; ac ofn y bydd yn cael ei chamddefnyddio neu ei chamddehongli mewn achosion gwrthwynebus.
(Broadhurst et al, 2018: 6-7)

Mae'r heriau yn y pwyntiau hyn yn sicr yn rhai dilys – mae cymhwyso canfyddiadau o ymchwil wrth wneud penderfyniadau mewn achosion unigol yn dasg gymhleth, ac ni fydd dull 'torri a gludo' na 'dewis a dethol' wrth ddefnyddio ymchwil yn annog hyder yng ngallu proffesiynol ac arbenigedd gweithwyr proffesiynol.

Er hyn, mae'r fersiwn diwygiedig o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, *Deddf Plant a Theuluoedd 2014* a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gyd yn gweld gweithiwr cymdeithasol yr awdurdod lleol a gwarcheidwad Cafcass Cymru mewn achosion gofal fel arbenigwyr sy'n cynghori'r llys, ac mae theori ac ymchwil (boed ymhlyg neu'n cael eu nodi'n benodol) yn agweddau allweddol ar arbenigedd proffesiynol. Nod yr adnodd hwn yw galluogi ymarferwyr, timau a rheolwyr achos i ddatblygu eu hyder, gwybodaeth a sgiliau er mwyn symud yr agenda hon yn ei blaen ar gyfer gwaith cymdeithasol plant a theuluoedd yn y llys teulu.

## Cynhyrchu, cymhwyso a sefydlu ymchwil – Yr Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol

**www.nuffieldfjo.org.uk**

Mae Sefydliad Nuffield wedi chwarae rhan arweiniol drwy ystyried beth yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â phroblem argaeledd canfyddiadau ymchwil a data gweinyddol a'r defnydd a wneir ohonynt wrth wneud penderfyniadau cyfiawnder teuluol (fel y nodwyd yn yr Adolygiad o Gyfiawnder Teuluol 2011). Yn 2015 cyhoeddodd Nuffield bapur cwmpasu dan y teitl T*owards a family justice observatory to improve the generation and application of research* (Rodgers et al, 2015). Roedd y papur hwn yn nodi 'pedair 'lefel' o ddylanwad neu fecanweithiau' a fyddai'n galluogi ymchwil meddygol, gwyddonol a gwyddor cymdeithasol i chwarae rôl er mwyn cefnogi system cyfiawnder teuluol effeithiol:

**1.** Polisi a deddfwriaeth ehangach yn ymwneud â chyfraith teulu, polisi ac ymarfer.

**2.** Canllawiau proffesiynol, hyfforddiant, a datblygiad i helpu ymarferwyr i

ddehongli a gweithredu yn unol â'r polisi a fframweithiau cyfreithiol.

**3.** Y broses fforensig wrth benderfynu ynglŷn â ffeithiau a dadleuon sy'n berthnasol i achos.

**4.** Dadansoddi opsiynau fel sail i benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan weithwyr cymdeithasol, barnwyr ac eraill.

Roedd y papur yn amlinellu'r gwahaniaeth pwysig rhwng:

**1.** Ymchwil i gefnogi penderfyniadau mewn achosion unigol, a allai ddod o amrywiaeth eang o ddisgyblaethau, a

**2.** Dadansoddiad sy'n gwella perfformiad y system gyfan, a allai ddefnyddio data gweinyddol wedi'u casglu a'u coladu fel rhan o reoli achos, yn ogystal â chanfyddiadau astudiaethau ymchwil. (Rodgers et al, 2015: 3)

Yn dilyn astudiaeth gwmpasu helaeth a gynhaliwyd yn 2017 (ac a ddisgrifiwyd yn Broadhurst et al, 2018) mae'r ymddiriedolwyr wedi penderfynu sefydlu Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield am gyfnod deori o bum mlynedd:

***Nod yr Arsyllfa yw cefnogi'r penderfyniadau gorau posibl ar gyfer plant drwy wella'r defnydd o ddata a thystiolaeth ymchwil yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Bydd ei chylch gorchwyl yn cynnwys materion cyfraith gyhoeddus a phreifat, a'r ecosystem cyfiawnder teuluol eang, yn ogystal â'r llysoedd.***
**(Broadhurst et al, 2018: 6)**

Mae'r Arsyllfa yn bwriadu mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r 'cyflenwad' drwy:

**1.** Gynhyrchu ymchwil cadarn, sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr drwy gyfuno deunydd sy'n bodoli'n barod a deunydd o astudiaethau ymchwil newydd. Bydd yr astudiaeth 'flaenllaw' gyntaf yn canolbwyntio ar fabanod yn y system cyfiawnder teuluol a bydd yn cychwyn yn 2018.

**2.** Creu Gwasanaeth Platfform Data a Dadansoddeg i ddarparu gwell mynediad at ddadansoddiadau o ddata Cafcass a Cafcass Cymru, a'u cysylltu â chronfeydd data perthnasol eraill. Bydd hyn yn golygu bod modd darparu dadansoddiadau mwy rheolaidd – yn ymdrin â Chymru a Lloegr am y tro cyntaf – er mwyn cael gwell dealltwriaeth o lwybrau plant a theuluoedd drwy wasanaethau, a'r canlyniadau tymor byr a chanolig y tu hwnt i'r llys teulu.

A bydd yn cefnogi ochr y 'galw' drwy:

**1.** Ddatblygu llythrennedd a chymhwysedd ymchwil pawb sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder teuluol (gan gynnwys cyfreithwyr, bargyfreithwyr a barnwyr).

**2.** Datblygu eglurder ynglŷn â'r perthnasoedd rhwng prif awdurdodau statud a chyfraith achosion a'r dystiolaeth wyddonol (gymdeithasol).




Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Cymru a Lloegr Nuffield: Model rhagarweiniol

Mae'r datblygiadau hyn yn golygu ei bod yn bryd i ni gael diweddarid o'r adnodd hwn i weithwyr cymdeithasol yng Nghymru. Mae dull system gyfan yr Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol yn pwysleisio mai dim ond lle mae ymarfer seiliedig ar dystiolaeth yn cael ei gadarnhau a'i roi ar waith ar bob lefel mewn gwahanol asiantaethau y bydd hyder a chymhwysedd gweithwyr cymdeithasol yn ffynnu. Gellir hwyluso hyn drwy:

- Adnabod, disgrifio a rhannu ymarfer da
- Darparu hyfforddiant ac arweiniad effeithiol i weithwyr cymdeithasol
- Datblygu modelau goruchwylio sy'n cynnwys trafodaeth am ddefnyddio ymchwil a dulliau cyffredin o sicrhau ansawdd asesiadau, yn enwedig ansawdd y dadansoddi
- Adeiladu cyfleoedd rhyngddisgyblaethol, cryf ar gyfer gwaith a hyfforddiant ar draws y system cyfiawnder teuluol leol.

## Y cefndir deddfwriaethol yng Nghymru – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Ers i'r argraffiad cyntaf o Evidence Matters ar gyfer Cymru (2013) roi sylw i ddefnyddio ymchwil yn y llys teulu[3], mae *Deddf Plant a Theuluoedd 2014* a *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* wedi arwain at newidiadau sylweddol mewn cyfraith ac ymarfer.

Er bod y rhan fwyaf o Ddeddf Plant 1989 yn berthnasol i Gymru a Lloegr, cafodd y darpariaethau ar gyfer plant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal (Rhan III, yn cynnwys adrannau 17-30 o'r Ddeddf) eu disodli yng Nghymru gan *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, a ddaeth i rym yn Ebrill 2016. Golyga hyn fod asesiadau o anghenion gofal a chymorth plant a'u teuluoedd yng Nghymru yn dilyn rheoliadau a chanllawiau newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (2015a-c) dan Ddeddf 2014. Mae'r rhain i gyd ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.[4]

Mae Rhannau I-II a IV-V o *Ddeddf Plant 1989*, sy'n cynnwys yr egwyddor lles, cyfraith breifat, ymyriadau llys ac amddiffyn plant – i gyd yn dal mewn grym yng Nghymru.

Mae'r ddyletswydd i hybu llesiant (sy'n cael ei ddiffinio yn adran 2) y rhai sydd angen gofal a chymorth yn elfen sylfaenol o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*. Mae datblygu canlyniadau llesiant cenedlaethol, a fydd yn cael eu mesur drwy Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol, yn arwydd o'r bwriad i ganolbwyntio ar wella canlyniadau i unigolion, gan gynnwys plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac yn cael eu lletya.[5]

[3] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am lysoedd teulu yng Nghymru a Lloegr ac maent yn cael eu gweinyddu gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service). Mae'r cyfrifoldeb am wasanaethau plant awdurdodau lleol yng Nghymru, asiantaethau mabwysiadu a Cafcass Cymru wedi'i ddatganoli i Gymru, ac mae hynny'n golygu bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi polisi ar gyfer y gwasanaethau hyn (mae'r polisi cyfatebol yn Lloegr yn cael ei gyhoeddi gan yr Adran Addysg). Yng Nghymru, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) yn dylanwadu ar ddatblygu polisi.

[4] https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb

[5] Gweler: https://llyw.cymru/topics/health/socialcare/well-being/?skip=1&lang=cy

Wrth i'r ddyletswydd hon a dyletswyddau ac egwyddorion trosfwaol eraill y Ddeddf gael eu hymsefydlu ymhellach mewn ymarfer, mae themâu ymarfer gwaith cymdeithasol yn dod i'r amlwg. Mae dyletswyddau ac egwyddorion o dan y Ddeddf yn cynnwys: cynnig rhagweithiol (hynny yw, darparu gwasanaethau yn Gymraeg ac o'r un safon â gwasanaethau drwy gyfrwng y Saesneg), llesiant, llais a rheolaeth (hynny yw, rhoi llais a rheolaeth i unigolion er mwyn cyrraedd y canlyniadau sy'n creu llesiant), atal ac ymyrryd yn gynnar, a chydgynhyrchu.

Mae'r gofyniad i hybu llesiant rhieni biolegol (a darpar deulu neu 'bersonau cysylltiedig' eraill) ac asesu eu hanghenion gofal a chymorth yn ôl eu hawl eu hunain yn cael ei weld fel ffordd o sicrhau gwell gofal i blant a phobl ifanc.

Mae'r ddyletswydd gyfreithiol i hysbysu am blant neu oedolion sy'n 'wynebu risg' (adrannau 130 a 128 yn y drefn honno) a'r codau ymarfer proffesiynol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yn gosod y safonau uchaf posibl:

> *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2017a)

> *Y Gweithiwr Cymdeithasol: Canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru* (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2017b)

> *Gweithredu mewn ffordd agored a gonest pan fydd pethau yn mynd o le: Gonestrwydd a dyletswydd broffesiynol. Canllawiau esboniadol i weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru* (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2017c).

Mae dyletswyddau a phwerau blaenorol y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cael eu rhoi ar sail statudol gan y Ddeddf (yn hytrach na'r sail reoleiddiol flaenorol) ac mae pwerau a dyletswyddau ychwanegol a chryfach wedi cael eu hymgorffori (adrannau 99-102 o'r Ddeddf; Rheoliadau 53-54 o Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015).

Mae'r flaenoriaeth a roddir i alluogi plant i aros gyda'u rhiant/rhieni biolegol, neu i gael eu lleoli o fewn eu teulu biolegol ehangach, yn cael ei hatgyfnerthu gan yr 'hierarchaeth lleoliadau' (adran 81 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; Rheoliadau 10-15 o Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015) ac yn cael ei hystyried ymhellach yn y Côd Ymarfer mewn cysylltiad â Rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) y Ddeddf (Llywodraeth Cymru, 2015c).

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn dweud eu bod wedi gweld cynnydd sylweddol yn y cohort maethu 'person cysylltiedig'. Er bod hyn yn cael ei ystyried yn bwynt cadarnhaol, mewn rhai achosion mae'n effeithio ar y gallu i recriwtio ac asesu gofalwyr maeth yn gyffredinol, ac yn arwain at fwy o brinder lleoliadau. Er bod y rhan fwyaf o'r trefniadau personau cysylltiedig yn darparu gofal rhagorol, gall heriau godi – ambell waith bydd angen gofyniad arall i asesu 'gallu i newid' ochr yn ochr ag 'addasrwydd i faethu'.

Mae mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig, darpariaeth cyfraith breifat a oedd yn cael ei gweld yn wreiddiol fel opsiwn sefydlogrwydd a allai wneud perthnasoedd sy'n bodoli'n barod yn fwy ffurfiol. Mae adolygiad achos difrifol Bwrdd Diogelu Plant Birmingham o farwolaeth Keegan Downer (Wate, 2017) yn dangos yr heriau anorfod wrth arfarnu opsiynau sefydlogrwydd ac yn cadarnhau pwysigrwydd asesiad trylwyr o'r opsiynau. Yn dilyn ymgynghoriad yn 2017, bydd diwygiadau i Reoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005 a chafodd cod ymarfer newydd ar gyfer awdurdodau lleol eu cyflwyno yn Haf 2018.[6]

Rhagwelir y bydd modd hwyluso gwybodaeth a rennir am ddiogelu drwy ddatblygu byrddau diogelu rhanbarthol, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r fframweithiau Adolygu Ymarfer Oedolion ac Ymarfer Plant.

Mae rhaglen ddiwygio Llywodraeth Cymru, a ddatblygwyd yng nghyd-destun y Ddeddf, wedi'i chynllunio i adlewyrchu dull o weithio mewn partneriaeth, gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Cymdeithas Maethu a Mabwysiadu Cymru (AFA Cymru) a'r Rhwydwaith Maethu. Mae'n ystyried ac yn rhoi sylw i effeithiolrwydd a chynaliadwyedd gwasanaethau maethu yng Nghymru ac mae ganddi bedair ffrwd waith:

- Ymgynghori ynglŷn â diweddaru *Rheoliadau Gwarcheidiaeth Arbennig (Cymru) 2005* a'r Côd Ymarfer
- Adolygu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu a maethu
- Datblygu Safonau Ymarfer y Swyddog Adolygu Annibynnol, a'r
- Fframwaith Maethu Cenedlaethol.

Mae'r angen am y syniadau gorau posibl mewn gwaith cymdeithasol plant a theuluoedd yn thema gyson o hyd. O'r 'diffygion cyson mewn dadansoddi a rhesymu' a nodwyd yn *Re* B-S [2013] EWCA Civ 1146[7] i'r feirniadaeth o ddiffyg dadansoddi wrth asesu gofalwyr maeth yn adolygiad achos difrifol Bwrdd Diogelu Plant Croydon (Griffin, 2017), Cyngor Bwrdeistref Dwyrain Swydd Caer v N & Ors [2017] EWFC 20[8], a sylwadau Syr Ernest Ryder bod rhaid i benderfyniadau yn ymwneud â lleoli 'gael eu cyfiawnhau gan dystiolaeth yn hytrach na thybiaethau' yn S-F (Plentyn) [2017] EWCA Civ 964.[9]

[6] Gweler: http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2018/573/made/welsh a http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=22021&Opt=0

[7] www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed117048

[8] www.bailii.org/ew/cases/EWFC/HCJ/2017/20.html

[9] www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed178832

# 2.

# Diwygiadau ym maes cyfiawnder teuluol – system sy'n esblygu

# 2. Diwygiadau ym maes cyfiawnder teuluol – system sy'n esblygu

Daeth yr adolygiad eang o'r system cyfiawnder teuluol, a gomisiynwyd yn 2010 gan lywodraethau San Steffan a Chymru ac a gadeiriwyd gan David Norgrove, i'r casgliad bod cyfiawnder teuluol yn 'system nad yw'n system, sy'n cael ei nodweddu gan ddiffyg ymddiriedaeth a diffyg arweiniad' (Yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol, 2011: 3). Ei raglen newid oedd yr ysgogiad ar gyfer y fersiwn diwygiedig o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a'r adrannau perthnasol o *Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014*.

Roedd yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol yn nodi nifer o faterion a oedd yn cyfrannu tuag at hyd achosion llys, ac mae'n anodd iawn newid rhai ohonynt:

- Cymhlethdod achosion a'r ffaith fod pethau'n newid wrth i achos fynd yn ei flaen.
- Y cynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau a cheisiadau a welwyd yn dilyn marwolaeth babi, Peter Connelly, yn 2007, tuedd sy'n parhau hyd heddiw, sy'n rhoi pwysau ar bob rhan o'r system, yn enwedig adnoddau gwaith cymdeithasol.
- Amrywiaeth yn ansawdd asesiadau, cynllunio achosion a gwaith paratoi ar gyfer llys gan weithwyr cymdeithasol.
- Y defnydd helaeth o asesiadau ychwanegol gan arbenigwyr.
- Diffyg rheoli achosion gweithredol gan lysoedd mewn llawer o ardaloedd.

Roedd adroddiad olaf yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol yn sôn am 'argyfwng sy'n datblygu'n araf' yn y system cyfiawnder teuluol. Yn 2018, er bod llawer o welliannau wedi'u gwneud dros y blynyddoedd, mae'r gair 'argyfwng' yn dal i gael ei ddefnyddio. Ym Medi 2016 rhybuddiodd Llywydd yr Adran Deulu, Syr James Munby, fod y cynnydd mewn llwyth achosion yn y llysoedd yn mynd i arwain at argyfwng, ac nad oes strategaeth glir ar ei gyfer (Munby, 2016), ac yn niwedd 2017, â cheisiadau am achosion gofal wedi cyrraedd lefelau uwch nag erioed, lansiodd y Grŵp Hawliau Teuluol adolygiad dan arweiniad y sector - Adolygiad o'r Argyfwng Gofal - (gweler isod).

## Gweithredu Diwygiadau Cyfiawnder Teuluol

Mae'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol (2011) wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o ddiwygio'r system cyfiawnder teuluol, gan arwain at newidiadau yn y fersiwn diwygiedig o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (2014) a *Deddf Plant a Theuluoedd (2014) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*

| Roedd yr Adolygiad yn galw am ... | Beth sydd wedi digwydd ... |
|---|---|
| **Llais y plentyn: ...** mwy o bwyslais ar wrando ar farn plant mewn achosion gofal a rhoi gwybodaeth sy'n briodol i'w hoedran iddynt. | Mae'r swyddogaeth hon yn cael ei chyflawni gan Fwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol,[10] sy'n adolygu llysoedd a chanolfannau cyswllt i gefnogi gwasanaeth sy'n canolbwyntio mwy ar y plant. Mae wedi cynnal pedwar adolygiad yng Nghymru hyd yn hyn. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cynhyrchu rhestr ddefnyddiol o dermau i blant.[11] |
| **Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol:** ... Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol newydd sy'n darparu arweiniad, gwell rheolaeth a pherfformiad, â system newydd ar gyfer adrodd am berfformiad. | Sefydlwyd y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol[12] yn 2012 a'i gadeirydd cyntaf oedd David Norgrove. Mae gan y Bwrdd 15 o aelodau, ac mae tri ohonynt yn dod o Gymru (yn cynrychioli Llywodraeth Cymru, Cafcass Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru).<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol yng Nghymru[13] i ategu, cefnogi a darparu gwybodaeth |

[10] Gweler: www.cafcass.gov.uk/family-justice-young-peoples-board

[11] Ar gael yn: www.cafcass.gov.uk/family-justice-young-peoples-board/glossary

[12] Gweler: www.gov.uk/government/groups/family-justice-board

[13] Gweler: https://llyw.cymru/topics/health/publications/socialcare/guidance1/network/?lang=cy

| Roedd yr adolygiad yn galw am... | Beth sydd wedi digwydd... |
|---|---|
| | gwybodaeth ar gyfer gwaith y Bwrdd. Mae'n rhoi cyngor ynglyn â'r cyd-destun penodol yng Nghymru ac yn sicrhau bod y Bwrdd yn ystyried safbwyntiau Cymreig ar faterion heb gael eu datganoli mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder teuluol yng Nghymru.<br>Nod gyffredinol y Bwrdd yw ysgogi gwelliannau sylweddol ym mherfformiad y system cyfiawnder teuluol. Mae'n gweithredu drwy Fyrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol ac mae ganddo gysylltiadau â'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol a'r Cyngor Cyfiawnder Teuluol[14], sy'n darparu cyngor arbenigol annibynnol iddo. |
| **Arweiniad barnwrol a diwylliant:** ... datblygu rôl fwy cadarn i farnwyr, yn cael eu cefnogi gan arbenigedd a dilyniant barnwrol. | Mae hyn wedi cael ei gyflawni gan y swyddogaethau rheoli achosion yn y fersiwn diwygiedig o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a *Deddf Plant a Theuluoedd 2014*. |
| **Y llysoedd: ...** un Llys Teulu gydag un pwynt mynediad, gyda phob lefel o'r farnwriaeth teulu (gan gynnwys ynadon) yn eistedd yn y llys teulu a gwaith yn cael ei ddyrannu yn ôl cymhlethdod. | Mae'r un Llys Teulu yn bodoli er 22 Ebrill 2014. Cafodd ei gyflwyno gan *Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013*. |

[14] Gweler: www.judiciary.gov.uk/related-offices-and-bodies/advisory-bodies/fjc

| Roedd yr adolygiad yn galw am... | Beth sydd wedi digwydd... |
| --- | --- |
| **Datblygu gweithlu:**<br>> ... strategaeth gweithlu a set gytunedig o sgiliau a gwybodaeth graidd ar gyfer cyfiawnder teuluol<br>> ... cwrs cynefino rhyngddisgyblaethol newydd<br>> ... treialu adborth i farnwyr ac ynadon ar y canlyniadau i blant a theuluoedd y maent wedi dyfarnu eu hachosion<br>> ... Gofal Cymdeithasol Cymru i gyhoeddi canllawiau i helpu cyflogwyr ac addysgwyr i addysgu gweithwyr cymdeithasol ynglyn â'r broses a'r weithdrefn gyfreithiol, beth mae'r llys yn disgwyl iddynt ei gyflwyno a sut i'w gyflwyno. | Gofynnodd y Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol i Ofal Cymdeithasol Cymru (Cyngor Gofal Cymru gynt) ddatblygu strategaeth gweithlu gwaith cymdeithasol er mwyn gwella sgiliau a gwybodaeth, hybu perthnasoedd rhyngbroffesiynol cadarnhaol a datblygu hyfforddiant amlddisgyblaethol. (Gweler Adran 3 o'r llawlyfr hwn: 'Paramedrau arbenigedd gwaith cymdeithasol'). |
| **Gwella rheoli achosion:**<br>> ... terfyn amser statudol o 26 wythnos ar gyfer cwblhau achosion gofal a goruchwylio, â hyblygrwydd i farnwyr ymestyn hyn mewn achosion eithriadol os yw hynny o fudd i'r plentyn<br>> ... lleihau craffu ar gynlluniau gofal gan y llys (a oedd wedi 'cynyddu'n raddol' er 1989) a llysoedd i ganolbwyntio eto ar gwestiynau craidd a ddylai'r plentyn fyw gyda'i rieni, aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau, neu gael ei roi yng ngofal | Cafodd yr holl ddarpariaethau hyn eu cynnwys yn *Neddf Plant a Theuluoedd 2014*. |

| Roedd yr adolygiad yn galw am... | Beth sydd wedi digwydd... |
|---|---|
| yr awdurdod lleol (dylid gadael agweddau a manylion eraill i'r awdurdodau lleol)<br>> ... deddfwriaeth i ganiatáu i orchmynion gofal interim gael eu rhoi am gyfnodau hwy, hyd at uchafswm o chwe mis. | |
| **Ymarfer awdurdodau lleol:** ... llysoedd a Swyddogion Adolygu Annibynnol i ddatblygu cysylltiadau mwy effeithiol, a gwarcheidwaid a Swyddogion Adolygu Annibynnol i gryfhau eu perthynas waith. | Mae dyletswyddau a phwerau blaenorol y Swyddog Adolygu Annibynnol wedi cael eu rhoi ar sail statudol gan *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* 2014 (yn hytrach na'r sail reoleiddiol flaenorol) ynghyd â phwerau ychwanegol a chryfach ac mae dyletswyddau wedi cael eu hymgorffori (adrannau 99-102 o'r Ddeddf; Rheoliadau 53-54 o *Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015).* |
| **Cynrychioli plant:** ... y 'model tandem' – lle mae Cafcass yn dyrannu gwarcheidwad i gynrychioli'r plentyn, a'r gwarcheidwad yn rhoi cyfarwyddyd i gyfreithiwr – i'w gadw fel 'mesur diogelu pwysig'. | Er bod cymhwyster i dderbyn cyllid cymorth cyfreithiol wedi'i ddileu o ran helaeth o'r system llysoedd teulu, mae plentyn sy'n destun cais gofal, a'i rieni, yn dal yn gymwys i dderbyn cyllid ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol. |
| **Dewisiadau eraill yn lle achosion llys confensiynol:** ... cydnabyddiaeth ehangach o fanteision Cynadleddau Grwp Teulu ac ystyried eu defnyddio cyn achosion. | Pwysleisir hyn yn y Côd Ymarfer cynllunio gofal. |

| Roedd yr adolygiad yn galw am... | Beth sydd wedi digwydd... |
| --- | --- |
| **Gwella ansawdd dadansoddiadau gwaith cymdeithasol:**<br>*'Mae gweithwyr cymdeithasol yn arbenigwyr. Yn yr un modd, mae swyddogion Cafcass yn arbenigwyr. Yr hyn sydd o'i le â'r system yw bod gennym o leiaf ddau arbenigwr ym mhob achos gofal – gweithiwr cymdeithasol a gwarcheidwad – ac eto rydym wedi tyfu â'r diwylliant o gredu nad ydyn nhw'n arbenigwyr go iawn felly mae arnom angen rhagor o Arbenigwyr gydag A fawr. Gan amlaf does gennym ni ddim.'* (Syr James Munby, yn rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Biliau Cyhoeddus, 5 Mawrth 2013, yn cael ei ddyfynnu yn Kotilaine, 2014) | Mae hyn yn cael ei gryfhau drwy'r gofynion a nodwyd yn y fersiwn diwygiedig o Gyfarwyddyd Ymarfer 12A yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a'r gofynion ar gyfer y dystiolaeth a fydd yn cael ei chyflwyno, gan gynnwys y Gronoleg Gwaith Cymdeithasol a'r Datganiad Gwaith Cymdeithasol.<br>Bydd angen i warcheidwad Cafcass Cymru lunio Dadansoddiad o Achos pan ofynnir iddo wneud hynny gan y llys ar faterion allweddol (dadansoddiad trothwy; dadansoddiad rheoli achos; dadansoddiad o allu rhianta; dadansoddiad o'r effaith ar blant; a dadansoddiad sefydlogrwydd cynnar).<br>Mae'r strategaeth gweithlu a ddatblygwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru a'r Rhaglen Gadarnhau (ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso) yn y fframwaith Dysgu ac Addysgu Proffesiynol Parhaus (DAPP) yn pwysleisio pa mor bwysig yw datblygu sgiliau yn ymwneud â defnyddio dadansoddiad wrth asesu a defnyddio barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cymhleth. Mae'r Rhaglen Gadarnhau'n darparu sylfaen ar gyfer gweithio yn y system cyfiawnder teuluol (gweler Adran 3 yn y llawlyfr hwn). |

## Prydlondeb achosion

Oedi a chost oedd y prif faterion a oedd yn achosi pryder yn 2011-12. Bryd hynny, roedd hyd cyfartalog achosion gofal yng Nghymru a Lloegr o'r cais i'r gorchymyn terfynol yn 54 wythnos (Cafcass, 2012). Mae blwyddyn yn amser hir ym mywyd unrhyw blentyn, yn enwedig babi. Rhaid i blentyn sy'n rhan ganolog o achos gofal fyw ag ansicrwydd drwy'r adeg, a pho hiraf y mae achos yn para po fwyaf tebygol yw'r plentyn o orfod newid lleoliad. Gall oedi cyn cael sefydlogrwydd gael effaith ddifrifol ar ganlyniadau plant, fel sy'n cael ei gydnabod yn adran 1(2) o *Ddeddf Plant 1989:*

*In any proceedings in which any question with respect to the upbringing of a child arises, the court shall have regard to the general principle that any delay in determining the question is likely to prejudice the welfare of the child.*

Rhoddwyd sylw i hyd achosion yn *Neddf Plant a Theuluoedd 2014*, a gyflwynodd y terfyn amser o 26 wythnos ar gyfer achosion gofal (sydd i'w weld yn awr yn adran 32 o *Ddeddf Plant 1989*, fel y'i diwygiwyd). Mae diwygiadau deddfwriaethol a'r fersiwn diwygiedig o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus[15] wedi sicrhau gostyngiad sylweddol yn hyd achosion er 2014. Yn ôl Cafcass Cymru (2017) gostyngodd yr hyd cyfartalog yng Nghymru i 24.5 wythnos yn 2016-17 (o'i gymharu â 27 wythnos ar gyfer Cymru a Lloegr).

Er hyn, mae'r ffigurau cyfartalog cyffredinol hyn yn cuddio amrywiant sylweddol rhwng gwahanol lysoedd ac awdurdodau lleol. Mae ymchwil i effaith y fersiwn diwygiedig o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar brosesau a chanlyniadau llys (Masson et al, 2017) yn cymharu dau sampl o achosion gofal o'r cyfnod cyn ac ar ôl ei gyflwyno mewn chwe ardal llysoedd yng Nghymru a Lloegr (cyfanswm o 373 o achosion gofal, yn ymwneud â 616 o blant). Nododd adroddiad interim ar yr astudiaeth hon (a fydd yn cael ei chwblhau yn 2018) dri ffactor allweddol yn ymwneud â lleihau oedi a phwysau ar adnoddau:

*Mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus wedi llwyddo i leihau hyd achosion gofal yn sylweddol, ond nid yw wedi gallu sicrhau bod achosion yn cael eu cwblhau mewn 26 wythnos. Nid yw amseroedd cwblhau cyfartalog, sy'n cael eu monitro a'u hadrodd gan GLITEM [Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi], yn nodi ffactorau allweddol ar gyfer cwblhau yn brydlon – **dilyniant barnwrol, cwblhau achosion yn y Gwrandawiad Datrys Materion a lleihau'r defnydd o arbenigwyr mewn achosion** [ein pwyslais ni], sydd i gyd yn faterion a nodwyd fel rhai sy'n amrywio'n sylweddol mewn gwahanol Ardaloedd Llysoedd yn yr Astudiaeth hon. Er gwaethaf hyfforddiant a safoni mae ymarfer yn amrywio'n fawr iawn o'r naill lys i'r llall, ac mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar adnoddau pob rhan*

[15] Dechreuwyd treialu'r fersiwn diwygiedig yng Ngorffennaf 2013 a chafodd ei gyflwyno'n llawn yn Ebrill 2014

*o'r system cyfiawnder teuluol, y llysoedd, awdurdodau lleol, Cafcass a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.* (Masson et al, 2017)

## Nifer yr achosion a'r Adolygiad o'r Argyfwng Gofal

Erbyn dechrau 2018 roedd nifer y ceisiadau am achosion gofal yng Nghymru a Lloegr wedi cyrraedd ei lefel uchaf erioed, ac roedd nifer y plant a oedd yn derbyn gofal yn y system gofal wedi cyrraedd ei lefel uchaf er 1985. Mae'r Adolygiad o'r Argyfwng Gofal, adolygiad dan arweiniad y sector, a ariannwyd gan Sefydliad Nuffield ac a hwyluswyd gan y Grŵp Hawliau Teuluol, yn canolbwyntio ar y mater hwn. Ei nodau yw:

- Edrych ar y rhesymau dros y cynnydd mewn achosion gofal a nifer y plant mewn gofal
- Dal i ganolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a theuluoedd
- Ystyried y cyd-destun economaidd, ariannol, cyfreithiol a pholisi cenedlaethol presennol sy'n effeithio ar deuluoedd ac ar ymarfer awdurdodau lleol a llysoedd
- Nodi syniadau ac atebion ymarferol a allai helpu i atal mewn ffordd ddiogel y cynnydd yn nifer yr achosion gofal sy'n dod gerbron y llysoedd teulu, a nifer y plant sydd yn y system gofal.[16]

Mewn trafodaeth o amgylch y bwrdd yng Nghymru yn Ionawr 2018, gofynnodd Nigel Richardson, Cadeirydd yr ymchwiliad, y cwestiwn isod:

*A ydym yn deall natur ein hymateb i bryderon ynglyn â lles plant sy'n arwain at batrwm lle mae mwy o blant yn derbyn gofal gan y Wladwriaeth, er gwaetha'r ffaith fod cyfraith a pholisi'n nodi'n glir mai'r lle gorau i blentyn dyfu i fyny ynddo, os yw hynny'n bosibl, yw gyda'i deulu?*

Mae adroddiad The Transparency Project am y cyfarfod hwnnw yng Nghaerdydd yn gwneud rhai pwyntiau amlwg.[17] Un o'r pwyntiau hyn yw bod angen edrych ar y data dros gyfnod, ac mae hynny'n dangos bod nifer y plant mewn gofal yng Nghymru a Lloegr wedi dyblu yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf. Er gwaetha'r uchafbwyntiau (fel yr un a ddilynodd farwolaeth Peter Connelly), y duedd hirdymor 'yng Nghymru o leiaf, yw cynnydd graddol ers i Ddeddf Plant 1989 (â'i hegwyddorion dim ymyriad) ddod i rym yn 1991'. Daeth dau brif fater i'r amlwg yng nghyd-destun Cymru.

1. Y canfyddiad ymhlith awdurdodau lleol y byddent yn cael eu beirniadu yn y llys am ddefnyddio llety gwirfoddol i ofalu am blentyn cyn cychwyn achos (dan

[16] Bydd yr adolygiad, y disgwylir iddo gael ei gwblhau yn haf 2018, yn adrodd yma: www.frg.org.uk/involving-families/reforming-law-and-practice/care-crisis-review

[17] Gweler: www.transparencyproject.org.uk/the-sector-led-review-into-the-rise-in-care-applications-and-number-of-children-in-care-wales Elusen sy'n egluro ac yn trafod cyfraith teulu a'r llys teulu yng Nghymru a Lloegr yw The Transparency Project. Mae'n gweithio er mwyn gwella ystod a hygyrchedd y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd.

adran 20 o *Ddeddf Plant 1989*, darpariaeth sy'n cael ei hailadrodd yn adran 76 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014)*. Mae hyn wedi codi ers achos Re N [2015] EWCA Civ 1112[18] a gyhoeddwyd yn Nhachwedd 2015, pan wnaeth Llywydd yr Adran Deulu feirniadu'r ffordd y defnyddiwyd adran 20 yn yr achos hwnnw (Doughty, 2016).

2. Barn wahanol ynglŷn â faint o gefnogaeth oedd yn cael ei chynnig i deulu a ffrindiau sy'n ofalwyr. Mae gwaith ymchwil yng Nghymru a Lloegr yn dangos bod cefnogaeth yn tueddu i fod yn gysylltiedig â statws cyfreithiol yn hytrach nag angen, ac mai plant sy'n derbyn gofal, a'u gofalwyr, yw'r rhai mwyaf tebygol o dderbyn cymorth, gan fod hyn yn ofyniad statudol.

## CLODDIO'N DDYFNACH

**Un o'r meysydd cyntaf y bydd y Ganolfan Beth sy'n Gweithio ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Blant yn canolbwyntio arno yw ymchwil i ffyrdd diogel o leihau'r angen i blant fynd i ofal. Er mai menter ar gyfer Lloegr yw'r Ganolfan, yn cael ei hariannu gan yr Adran Addysg, mae ei Phartner Ymchwil yn cael ei arwain gan y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) ym Mhrifysgol Caerdydd. Ewch i: http://sites.cardiff.ac.uk/cascade/what-works-centre/how-to-safely-reduce-the-need-for-children-to-enter-care/**

## Y Fersiwn Diwygiedig o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus

Cafodd yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ei gyflwyno'n raddol yng Nghymru a Lloegr yn 2008 (Y Farnwriaeth a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2008) ac roedd yn cynnwys strwythur pedwar cam ar gyfer rheoli achosion gofal. Fel rhan o'r rhaglen Diwygio Cyfiawnder Teuluol, cafodd ei ddiwygio'n strwythur tri cham yn 2013 (gweler y tabl gyferbyn). Y dogfennau sydd i'w cyflwyno gyda'r cais gofal (Cyfarwyddyd Ymarfer 12A) yw:

> Cronoleg Gwaith Cymdeithasol

> Datganiad Gwaith Cymdeithasol a Genogram

> Yr asesiadau cyfredol y mae'r Datganiad yn cyfeirio atynt ac y mae'r awdurdod lleol yn dibynnu arnynt

> Cynllun Gofal

> Mynegai o'r 'Dogfennau Rhestr Gyfeirio' a gedwir gan yr awdurdod lleol: mae angen cyflwyno gorchmynion llys blaenorol a deunyddiau cyd-asiantaethol; nid oes angen cyflwyno cofnodion o benderfyniadau sydd wedi cael eu gwneud oni bai fod y llys yn gofyn amdanynt ac nid oes disgwyl iddynt fod yn fwy na dwy flwydd oed.

[18] www.bailii.org/ew/cases/EWCA/Civ/2015/1112.html

# Yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010 Cyfarwyddyd Ymarfer 12A

Y prif bwyntiau (am fanylion llawn gweler y ddolen gyswllt yn y troednodyn)[19]

## Cam 1

### Cyflwyno a dyrannu

- Yr awdurdod lleol yn cyflwyno cais a dogfennau Atodiad i'r llys ac yn anfon copïau i Cafcass Cymru
- Y Llys yn cyflwyno cais.

**Erbyn Diwrnod 2**

- Y llys yn dyrannu achos i farnwr ar y lefel briodol
- Yr awdurdod lleol yn cyflwyno papurau i'r partïon
- Y llys yn rhoi cyfarwyddiadau safonol gan gynnwys penodi gwarcheidwad Cafcass Cymru.

## Cam 2

Gwrandawiad rheoli achos – Nid cyn diwrnod 12 ac nid ar ôl diwrnod 18

- Os oes angen, nodi a oes angen unrhyw arbenigwyr a chytuno ar gwestiynau drafft
- Y llys yn rhoi cyfarwyddiadau manwl gan gynnwys pennu'r amserlen ar gyfer y plentyn ac yn penderfynu a oes angen estyniad y tu hwnt i 26 wythnos
- Rhestru Gwrandawiad Datrys Materion (neu os oes angen, Gwrandawiad Rheoli Achos Pellach).

## Cam 3

### Gwrandawiad Datrys Materion

- Y llys yn cyfyngu'r materion i'r rhai hynny y gellir eu datrys yn y cam hwn ac unrhyw rai sydd ar ôl i gael eu pennu mewn Gwrandawiad Terfynol
- Y llys yn gwneud cyfarwyddiadau rheoli achos terfynol.

[19] www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/pd_part_12a

## Proses cyn-achos effeithiol

Mae canllawiau statudol (Yr Adran Addysg, 2014) yn nodi'r broses cyn-achos, sy'n ceisio datrys achosion heb fynd i'r llys os yw hynny'n bosibl. Os oes rhaid defnyddio'r llys, mae'r canllawiau'n ceisio sicrhau paratoadau gwell a dull gweithredu symlach. Er nad oes gan Lywodraeth Cymru ganllawiau statudol ar achosion llys a'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ar hyn o bryd, disgwylir i awdurdodau lleol yng Nghymru ddilyn yr un broses cyn-achos (mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer yn berthnasol ym mhob llys, ond dim ond yn Lloegr y mae canllawiau'r Adran Addysg yn berthnasol).

Mae'r canllawiau'n amlinellu tri cham cyn cyflwyno cais, ac eithrio mewn achosion lle mae angen gweithredu ar fwy o frys:

- Rhaid i'r awdurdod lleol ofyn am gyngor cyfreithiol er mwyn canfod a oes achos i wneud cais, drwy gyfarfod porth cyfreithiol neu gyfarfod cynllunio.
- Rhaid anfon 'Llythyr Cyn Achos' at y rhieni yn amlinellu'r materion sy'n achosi pryder ac yn egluro beth y mae angen iddo newid.
- Rhaid i'r llythyr wahodd rhieni i gyfarfod cyn-achos i weld a oes modd cytuno ar gynllun heb ddefnyddio'r llys.

Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol hefyd ddangos ei fod wedi ystyried teulu neu ffrindiau fel gofalwyr posibl, a phwysleisir gwerth Cynadleddau Grwp Teulu.

Canfu arolygiad o waith mewn prosesau cyn-achos mewn chwe awdurdod lleol yng Nghymru (AGGCC, 2016), dan y fersiwn diwygiedig o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, bod:

1. Gwaith a oedd wedi cael ei wneud yn y broses cyn-achos yn canolbwyntio ar ganlyniadau a bod ymyriadau ataliol yn llwyddiannus.

2. Cysondeb a thryloywder y broses wneud penderfyniadau yn well os oedd gwasanaeth yn defnyddio model neu ddull penodol o asesu risgiau a phryderon.

3. Er bod prinder llenyddiaeth addas am y broses cyn-achos ledled Cymru, a phrinder gwybodaeth glir mewn gwahanol ieithoedd a fformatau, roedd teuluoedd yn elwa o sgiliau cyfathrebu da gweithwyr cymdeithasol.

4. Roedd llythyrau cyn-achos at ei gilydd o ansawdd da ac wedi'u hysgrifennu mewn iaith hawdd ei deall. Er hyn, nid oedd hysbysiad ysgrifenedig

cyson bod proses yr Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus yn dod i ben.

5. Er nad oes gan blant gynrychiolydd yn y cyfnod cyn-achos (yn wahanol i'w rhieni, sydd â hawl i gynrychiolaeth gyfreithiol) roedd enghreifftiau o waith uniongyrchol creadigol o ansawdd da a oedd yn mynegi barn plant ac yn eu galluogi i siarad am eu pryderon. (AGGCC, 2016)

Mae'r adroddiad hefyd yn disgrifio nifer o enghreifftiau o ymarfer da mewn gwahanol rannau o Gymru (gweler Ffocws ar Ymarfer).

## FFOCWS AR YMARFER

### Y broses cyn-achos: enghreifftiau o ymarfer da

- Defnyddiodd un gweithiwr cymdeithasol yng Nghonwy gwis llawn hwyl (gyda gwobrau) i benderfynu a oedd plant wedi deall beth oedd yn mynd i ddigwydd a sut y byddai eu safbwyntiau yn cael eu hystyried. Roedd hyn yn cynyddu ymgysylltiad y plant â'r broses ac yn helpu i leihau natur ingol y materion difrifol a oedd yn cael eu cyfathrebu.
- Yn Abertawe roedd achosion a oedd yn bodloni'r sbardunau allweddol ond nad oeddent yn mynd i'r broses cyn-achos yn destun archwiliad gan y gwasanaethau plant. Llwyddodd hyn, ynghyd â dadansoddiad arferol o ddata'n ymwneud â cheisiadau i'r llys a gwerthusiad o ganlyniadau, i sicrhau uwch-reolwyr mai dim ond yr 'achosion iawn' oedd yn cael eu dwyn i achosion gofal.
- Roedd gwasanaethau plant Wrecsam wedi datblygu trefniadau 'monitro achosion agored', a oedd yn rhoi cyfle i uwch-reolwyr oruchwylio cynnydd yr achosion ac ymyrryd i ddylanwadu ar y gwaith o ymgysylltu ag asiantaethau partner neu i gymeradwyo adnoddau ychwanegol er mwyn cynhyrchu canlyniadau mwy prydlon.
- Roedd gweithwyr yng ngwasanaethau plant Abertawe wedi datblygu'r model Arwyddion o Ddiogelwch ymhellach gan eu bod wedi ennill hyder yn y dull hwn. Cafodd datganiadau perygl eu troi yn ganlyniadau llesiant i wasanaethau 'cam-i-lawr' eu defnyddio i fesur cynnydd. Cafodd dysgu ei rannu ar draws timau gyda chyflwyniadau neu enghreifftiau o asesiadau a chynlluniau a oedd wedi derbyn adborth cadarnhaol.
- Mae Torfaen wedi datblygu Panel Plant Agored i Niwed (mae gwasanaethau cyfreithiol ac asiantaethau partner yn cyfrannu i'r panel). Mae pob achos lle canfuwyd pryderon o ran goruchwyliaeth yn cael ei ystyried gan y panel ac yna'n cael ei adolygu'n systematig. Mae gan aelodau awdurdod i wneud penderfyniadau ac roedd staff yn gwerthfawrogi'r heriau, a oedd yn cryfhau'r broses o wneud penderfyniadau.
- Mae uwch-weithiwr cymdeithasol yng ngwasanaethau plant Sir Benfro wedi datblygu set o offer (a gyhoeddwyd fel atodiad i adroddiad AGGCC) sy'n gymhorthion gweledol i weithwyr cymdeithasol eu defnyddio mewn sesiynau gwaith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc i helpu i ganfod problemau yn eu bywydau a darparu gwell dealltwriaeth o safbwynt y plentyn neu'r person ifanc.

(Daw'r holl enghreifftiau o AGGCC, 2016)

## FFOCWS AR YMARFER Y Llythyr Cyn Achos

Mae barnwyr yng Nghymru yn disgwyl i lythyrau cyn achos gael eu hysgrifennu mewn iaith glir sy'n hawdd ei deall. Dylai'r llythyrau gyfeirio at nifer fach o feysydd amlwg sy'n achosi pryder fel bod rhieni a'u cynghorwyr yn gwybod beth sydd angen ei newid.

## CLODDIO'N DDYFNACH

**Cafodd canllawiau statudol yr Adran Addysg ar gyfer Lloegr yn 2014 – Court orders and pre-proceedings eu hategu gan ganllawiau ymarfer da sydd i'w gweld ar wefan mynediad agored: http://coppguidance.rip.org.uk/. (Er nad oes gan ganllawiau'r Adran Addysg statws canllawiau statudol yng Nghymru, mae llawer o negeseuon ac adnoddau defnyddiol sydd hefyd yn berthnasol i ymarferwyr yng Nghymru.)**

**Cyhoeddwyd canllawiau statudol ar achosion gofal gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2008 a chanllawiau atodol yn 2014[20] ond mae angen eu diweddaru i adlewyrchu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r holl ganllawiau ar gynllunio gofal i blant sydd angen gofal a chymorth a phlant sy'n derbyn gofal bellach wedi'u cynnwys yng Nghodau Ymarfer Rhannau 3, 4 a 6 o'r Ddeddf.[21]**

## CLODDIO'N DDYFNACH

### Llythyr Cyn Achos a Chyfarfod Cyn Achos

**Mae gwefan mynediad agored Research in Practice yn cynnwys awgrymiadau ymarferol er mwyn ysgrifennu'r llythyr, ac adnoddau dysgu eraill, gan gynnwys fideos o weithwyr cymdeithasol yn trafod Cyfarfodydd Cyn Achos effeithiol a gweithio gyda rhieni. Ewch i:**

**http://coppguidance.rip.org.uk/pre-proceedings/letter-before-proceedings/**

## CLODDIO'N DDYFNACH

### Ymarfer cyn-achos

**Gwnaeth astudiaeth helaeth a gyhoeddwyd yn 2013 (Masson et al) nifer o argymhellion ar gyfer gwella gweithgaredd ymarfer cyn-achos. Mae llawer ohonynt yn dal yn berthnasol i wella ymarfer yn 2018:**

**www.bristol.ac.uk/media-library/sites/law/migrated/documents/partnershipbylaw.pdf**

---

[20] Ewch i: https://llyw.cymru/topics/health/publications/socialcare/guidance1/orders/?lang=cy

[21] Ewch i: https://llyw.cymru/topics/health/socialcare/act/code-of-practice/?lang=cy

## FFOCWS AR YMARFER

**Gwerthusiad o Gynllun Reflect Barnardo's a Chyngor Dinas Casnewydd**

Prif nod y prosiect Reflect yw atal menywod y cymerwyd plentyn oddi arnynt rhag beichiogi eto yn y tymor byr, os yw'n fwy na thebyg y bydd y plentyn hwnnw hefyd yn cael ei gymryd oddi arnynt.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ariannu CASCADE i gynnal cyfweliadau ansoddol gyda menywod sy'n ymwneud â'r prosiect Reflect yn ogystal â dadansoddiad o ffeiliau achos gan ganolbwyntio ar osgoi beichiogi eto.

Mae'r ymchwil hefyd yn ceisio dysgu rhagor am y menywod sy'n debygol o golli mwy nag un plentyn i'r system ofal, natur y cymorth emosiynol ac ymarferol y mae'r menywod yn ei dderbyn yn ystod y cyfnod y maent yn ymwneud â'r gwasanaeth, a dangosyddion cynnydd cadarnhaol. I gael rhagor o wybodaeth ewch i: **http://sites.cardiff.ac.uk/cascade/research/research-projects/reflect**

## Defnyddio adroddiadau arbenigwyr mewn achosion gofal

Roedd defnydd priodol o adroddiadau arbenigwyr mewn achosion gerbron y llys teulu yn fater a oedd yn codi dro ar ôl tro yn y blynyddoedd cyn yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol. Pryder ynglŷn â'r oedi a oedd yn cael ei achosi gan orddefnyddio arbenigwyr, ac effaith yr oedi hwnnw ar blant, oedd y tu ôl i lawer o gynigion yr adolygiad.

Does dim amheuaeth bod achosion gofal yn gymhleth. Mae tair astudiaeth allweddol o achosion cyn diwygiadau 2014 – adolygiad ymchwil Brophy (2006), Care Profiling Study (Masson et al, 2008) a gwerthusiad Jessiman et al (2009) o 53 achos Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus cynnar – yn amlygu rhai o nodweddion cyffredin achosion gofal:

- **Mwy nag un honiad** o gam-drin plant a diffygion rhianta (nid oedd yr un o achosion gwerthuso'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn ymwneud ag un broblem yn unig).
- **Gofal cymdeithasol yn ymwneud â'r plentyn neu'r rhieni ers tro** (roedd bron bob un o'r achosion yn ymchwil Masson et al yn hysbys i'r

gwasanaethau gofal cymdeithasol, ac roedd 45 y cant ohonynt yn hysbys iddynt ers pum mlynedd neu ragor).

- **Diffyg 'cydweithrediad rhieni'** (roedd hyn yn wir mewn 60 i 75 y cant o'r achosion).
- **Rheini wedi cael eu cam-drin pan oeddent yn blant** (tua 60 y cant o'r achosion).
- **Trais domestig** (tua hanner yr achosion).
- **Plant eisoes yn byw yn rhywle arall** (tua hanner yr achosion).
- **Gweithgaredd troseddol** (tua hanner yr achosion).
- **Anaf corfforol** (35 i 40 y cant o'r achosion, a'r achos yn aml yn aneglur neu'n cael ei ddadlau).
- **Problemau camddefnyddio sylweddau** (mwy nag un o bob tri achos).
- **Rhieni â phroblemau iechyd meddwl** (30 i 60 y cant o'r achosion).
- **Bywydau di-drefn** (tua un o bob tri achos).
- **Brodyr a chwiorydd dan orchymyn gofal neu yn byw yn rhywle arall** (tua 30 y cant o'r achosion).
- **Defnyddio gorchmynion amddiffyn** (tua chwarter yr achosion).
- **Rhiant ag anabledd dysgu** (15 i 25 y cant o'r achosion).

Roedd Parents' Representation Study (Pearce et al, 2011) yn disgrifio'r pwyslais sy'n cael ei roi ar farn arbenigwyr am allu rhianta ac anghenion plant, ac yn dod i'r casgliad bod barn arbenigwyr wedi 'disodli penderfyniadau gwaith cymdeithasol a phenderfyniadau cyfreithiol ynglŷn â materion lles'. Roedd yr astudiaeth yn nodi nad oedd digon o ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r cwestiwn a oedd angen adroddiadau gan arbenigwyr i ddarparu gwybodaeth newydd i'r llys, o gymharu â sicrhau yn syml iawn bod rhieni'n cael pob cyfle i gyflwyno'u hachos.

Mae astudiaethau eraill yn codi amheuon ynglŷn ag ansawdd asesiadau arbenigwyr. Canfu ymchwil yn edrych ar sampl o 57 o blant ifanc iawn a oedd yn destun asesiad craidd, ymchwiliad adran 47 neu â ddaeth yn blant yn derbyn gofal, fod asesiadau rhianta arbenigwyr yn un o'r prif ffactorau a oedd yn achosi oedi (Ward et al, 2012). Dilynwyd argymhellion yr arbenigwr ym mhob achos. Roedd hyn

yn cynnwys yr achosion lle dywedodd arbenigwyr y dylai'r plant aros gyda'u rhieni biolegol – dau o bob tri achos; ac eto, mewn mwy na hanner yr achosion hynny cafodd y plentyn ei gymryd oddi ar ei rieni yn y diwedd.

Roedd agwedd negyddol wedi'i sefydlu. Os oedd y llys yn mynd i ofyn am adroddiad arbenigwr yn ystod yr achos – a bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar farn arbenigwyr nag ar farn gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol – nid oedd llawer o gymhelliant i awdurdodau lleol wneud asesiadau trylwyr a defnyddio arbenigwyr amlddisgyblaethol yn eu paratoadau cyn mynd i'r llys.

Yn Ionawr 2013 daeth dull gweithredu newydd i rym o ganlyniad i ddiwygiadau i Reolau Trefniadaeth Teulu 2010. Roedd y diwygiadau hyn yn rhoi dyletswydd ar y llys i gyfyngu tystiolaeth arbenigwyr i dystiolaeth sy'n 'angenrheidiol' ym marn y llys er mwyn helpu'r llys i ddatrys yr achos. (Y prawf blaenorol oedd bod tystiolaeth tyst arbenigol yn 'ofynnol o fewn rheswm'.) Cafodd hyn ei godeiddio mewn deddfwriaeth yn adran 13 o *Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014*. Mae adran 13 yn nodi'r canlynol fel materion y dylai'r llys eu hystyried wrth benderfynu a oes angen tystiolaeth arbenigwyr i helpu'r llys i ddatrys yr achos yn deg.

(a) Unrhyw effaith y byddai rhoi caniatâd yn debygol o'i chael ar les y plant dan sylw.

(b) Y materion y byddai'r dystiolaeth arbenigwr yn ymwneud â hwy.

(c) Y cwestiynau y byddai'r llys yn gofyn i'r arbenigwr eu hateb.

(d) Pa dystiolaeth arall gan arbenigwyr sydd ar gael (boed wedi ei chael cyn neu ar ôl i'r achos ddechrau).

(e) A allai rhywun arall roi tystiolaeth ar y materion y byddai'r arbenigwr yn rhoi tystiolaeth arnynt.

(f) Yr effaith y byddai rhoi caniatâd yn debygol o'i chael ar amserlen, hyd a threfniadau cynnal yr achos.

(g) Cost y dystiolaeth gan arbenigwr.

(h) Unrhyw faterion a nodwyd yn y Rheolau Trefniadaeth Teulu.

Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'n glir nad yw 'tystiolaeth arbenigwr', i'r dibenion hyn, yn golygu tystiolaeth a roddir gan weithiwr cymdeithasol awdurdod lleol neu Cafcass.

## CLODDIO'N DDYFNACH

**Gweler Briff Ymarfer 1 am ganllawiau o ddyfarniadau llys yn ymwneud â phryd y mae angen arbenigwr.**

Mae adroddiad interim Masson et al (2017), ar eu hastudiaeth o'r modd y mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn gweithio, yn edrych ar sampl o 203 o achosion (yn cynnwys 326 o blant) a gyflwynwyd rhwng Gorffennaf 2014 a Chwefror 2015. Canfu'r astudiaeth fod y defnydd o arbenigwyr yn dal yn sylweddol, ond bod maint y defnydd yn amrywio'n fawr o'r naill lys i'r llall:

> Roedd awdurdodau lleol yn comisiynu asesiadau arbenigwyr *cyn i achos ddechrau* os oedd materion y tu hwnt i arbenigedd asesiad awdurdod lleol – er enghraifft, asesiadau meddygol o iechyd neu anafiadau plant; asesiadau seiciatrig neu seicolegol ar gyfer rhieni (y rheswm mwyaf cyffredin); ac asesiadau o allu rhieni i ymgyfreitha (os oedd amheuaeth ynglyn â hynny). Yn ogystal, roedd 25 y cant o'r achosion yn cynnwys profion DNA i ganfod neu gadarnhau tadolaeth a 41 y cant yn cynnwys profi rhiant i weld a yw'n camddefnyddio sylweddau.

> Weithiau, os oedd adnoddau staff awdurdodau lleol wedi eu hymestyn i'r eithaf, roedd asesiadau gwaith cymdeithasol yn cael eu comisiynu'n allanol.

> Mewn mwy na hanner yr achosion, roedd gweithwyr cymdeithasol yr awdurdod lleol yn gwneud yr holl asesiadau cyn-achos ac nid oedd arbenigwyr yn cael eu defnyddio yn ystod y cam hwn.

> Roedd y llysoedd yn penodi arbenigwyr mewn 60 y cant o'r achosion. Er hyn, roedd amrywiadau sylweddol rhwng ardaloedd (pump yn Lloegr ac un yng Nghymru), o lai na 40 y cant i fwy nag 80 y cant o'r achosion. Yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond un arbenigwr oedd yn cael ei benodi; roedd tair o'r chwe ardal wedi penodi dau neu ragor o arbenigwyr mewn bron i hanner yr achosion.

> Mewn bron i chwarter yr achosion, roedd yr holl dystiolaeth broffesiynol o anghenion y plentyn a gallu'r rhieni i'w diwallu yn cael ei darparu gan y gweithiwr cymdeithasol a gwarcheidwad y plentyn. Mewn 20 y cant arall o'r achosion, roedd yr awdurdod lleol yn cael tystiolaeth arbenigol cyn y cais, ond ni chafodd unrhyw arbenigwyr allanol eu defnyddio mewn achosion.

> Nid oedd cysylltiad ystadegol rhwng defnyddio arbenigwyr a'r gorchmynion oedd yn cael eu gwneud mewn achosion. Nid yw hyn yn golygu nad oedd arbenigwyr unigol yn darparu asesiadau a oedd yn newid canlyniad achos. Yn hytrach, mae'n golygu y dylai

penodi arbenigwr gael ei ystyried yn nhermau darparu gwybodaeth angenrheidiol yn unig, nid cynyddu'r siawns o ganlyniad penodol.

- Roedd achosion heb arbenigwyr yn dod i ben, ar gyfartaledd, fwy na chwech wythnos yn gynharach na rhai gydag arbenigwyr.

## Tryloywder a'r llys teulu

Mae'r rhan fwyaf o wrandawiadau llys teulu'n cael eu cynnal yn breifat. Caniateir i newyddiadurwyr fod yn bresennol ond rhaid iddynt ofyn i'r llys am ganiatâd os ydynt yn dymuno cyhoeddi rhywbeth. Dan adran 97 o *Ddeddf Plant 1989*, ni ddylai manylion plentyn gael eu datgelu'n gyhoeddus pan mae achos sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Plant yn cael ei gynnal. Dywedodd cyn-lywydd yr Adran Deulu, Syr James Munby, ei fod yn benderfynol na ddylai'r llys teulu gael ei gyhuddo gan y cyfryngau a grwpiau dwyn pwysau o weinyddu cyfiawnder 'cyfrinachol'.[22]

Er Chwefror 2014, mae rhai dyfarniadau sy'n cael eu gwneud gan farnwyr cylchdaith a barnwyr Uchel Lys mewn llysoedd teulu'n cael eu cyhoeddi ar wefan mynediad agored gan BAILII, Asiantaeth Gwybodaeth Gyfreithiol Prydain ac Iwerddon (gweler: www.transparencyproject.org.uk/bailii-judgments). Mae canllawiau ymarfer a gyhoeddwyd gan y Llywydd i'r barnwyr yn dweud bod angen iddynt anfon dyfarniad ysgrifenedig neu drawsgrifiad i BAILII pan fydd achos yn dod i ben â gorchymyn gofal neu orchymyn lleoli.[23]

Gall gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol a Cafcass Cymru a thystion arbenigol ddisgwyl cael eu henwi yn y dyfarniadau hyn, ond ni fydd plant a theuluoedd yn cael eu henwi. Rhaid i farnwyr fod yn ofalus iawn a sicrhau bod achosion yn ddienw er mwyn atal adnabod drwy ddarnau 'jig-so' (hynny yw, lle gellid cysylltu'r wybodaeth yn y dyfarniad â gwybodaeth sydd ar gael mewn man arall i adnabod y plentyn). Dylent wirio hyn gyda chyfreithwyr y partïon, gan gynnwys cyfreithiwr yr awdurdod lleol.

[22] Wrth siarad yn Ebrill 2014, dywedodd Syr James Munby: 'Agwedd hanfodol ar drawsnewid y system cyfiawnder teuluol yw'r diwygiadau sydd eu hangen i'r rheolau sy'n ymwneud â chaniatáu mynediad i achosion teuluol ac adrodd amdanynt – rheolau sy'n gwegian o hyd. Mae angen diwygiadau radical i'n rhyddhau o'r cyhuddiad a glywir dro ar ôl tro, ac sy'n siŵr o fod yn niweidiol, ein bod yn gweithredu system o gyfiawnder preifat – cyfrinachol yn ôl rhai.' Gweler: www.judiciary.gov.uk/wp-content/uploads/2014/05/family-justice-reforms-29042014.pdf

[23] Mae'r canllawiau i'w gweld yn: www.judiciary.gov.uk/publications/transparency-in-the-family-courts

Dylai gweithwyr cymdeithasol a chyfreithwyr fod yn effro i risgiau posibl sy'n gysylltiedig â chyhoeddi gwybodaeth, ac ymgynghori â'r plentyn ynglŷn â hyn (os yw'n ddigon hen). Gall unrhyw barti wneud cais i'r barnwr i gyhoeddi, neu i beidio â chyhoeddi, mathau eraill o ddyfarniadau ar BAILII, neu gall y barnwr benderfynu y dylid cyhoeddi'r wybodaeth, er budd y cyhoedd.

Mae llawer o ddyfarniadau Uchel Lys i'w gweld ar BAILII ond mae llysoedd teulu'n amrywio o ran eu hymarfer. Dangosodd ymchwil gan Doughty et al (2017) fod nifer o ddyfarniadau o lysoedd yng ngogledd Cymru wedi cael eu cyhoeddi o ganlyniad i'r canllawiau hyn, ond bod barnwyr yn ne Cymru yn tueddu i beidio â dilyn y canllawiau.

## CLODDIO'N DDYFNACH

### Dyfarniadau llys teulu

**Gallwch ddarllen dyfarniadau llys teulu 'arferol' ar BAILII (www.bailii.org) drwy chwilio yng nghronfa ddata llysoedd teulu Cymru a Lloegr neu drwy edrych ar y rhestr 'Recent Additions'. Mae ymchwil gan Brophy et al (2015) yn awgrymu bod pobl ifanc yn poeni ynglyn â'r effaith ar breifatrwydd plant a risgiau posibl y bydd cyhoeddi achosion fel hyn yn arwain at ddatgelu manylion personol.**

**O ganlyniad, dylid ymgynghori â phobl ifanc a rhoi cyngor iddynt ynglŷn â goblygiadau cyhoeddi dyfarniadau, oherwydd gallant wneud cais (a gall yr awdurdod lleol wneud cais) i atal cyhoeddiad neu ychwanegu rhagor o gyfyngiadau adrodd.**

**Mae elusen The Transparency Project yn rhoi tri chategori uniongyrchol i gysylltu â hwy:**

1. **Dyfarniadau'r Adran Deulu (Yr Uchel Lys):** **www.bailii.org/ew/cases/EWHC/Fam**
2. **Dyfarniadau Llysoedd Teulu (Barnwyr yr Uchel Lys):** **www.bailii.org/ew/cases/EWFC/HCJ**
3. **Dyfarniadau Llysoedd Teulu (Barnwyr Eraill):** **www.bailii.org/ew/cases/EWFC/OJ**

## CLODDIO'N DDYFNACH

### The Transparency Project

**Elusen yw The Transparency Project. Ei nod yw gwella ansawdd, ystod a hygyrchedd gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am gyfraith teulu a'r llys teulu. Mae ei gwefan yn cyfeirio pobl at adnoddau defnyddiol i'w helpu i ddeall y system cyfiawnder teuluol. Mae hefyd yn cyhoeddi postiadau a blogiau rheolaidd am faterion llysoedd teulu. Ewch i: www.transparencyproject.org.uk/**

## CLODDIO'N DDYFNACH

### Effaith y Diwygiadau Cyfiawnder Teuluol ar ymarfer rheng flaen

**Cafodd Research in Practice ei gomisiynu gan yr Adran Addysg i gynnal tri ymchwiliad i blymio'n ddwfn i effaith yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol yn 2015-16.**

**1. Cam Un: Cyfweliadau ansoddol rhwng Ionawr a Mawrth 2015 gyda 58 o weithwyr proffesiynol mewn chwe awdurdod lleol yn canolbwyntio ar y themâu isod a oedd yn gysylltiedig â'r diwygiadau:**

- **Cydymffurfio â gofyniad 26 wythnos yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus**
- **Newidiadau mewn ymarfer cyn-achos**
- **Cynnal asesiadau a chynllunio gofal er mwyn cael sefydlogrwydd**
- **Cyflwyno tystiolaeth i'r llys**
- **Gweithio mewn partneriaeth a pherthnasoedd yng nghyswllt llysoedd teulu**
- **Newidiadau i'r mathau o orchmynion y gwneir cais amdanynt ac sy'n cael eu caniatáu.**

**2. Cam Dau: I gyd-fynd â'r themâu a oedd yn codi yng Ngham Un, cynhaliwyd astudiaeth ddilynol i edrych ar y defnydd o orchmynion gwarcheidiaeth arbennig. Cynhaliwyd cyfweliadau ffôn gydag 19 o weithwyr proffesiynol dros gyfnod o dair wythnos ym Mawrth 2015 yn yr un chwe awdurdod lleol ag yng Ngham Un.**

**3. Cam Tri: Archwilio amrywiadau – 60 o gyfweliadau gyda gweithwyr proffesiynol (Cyfarwyddwyr Cynorthwyol, Penaethiaid Gwasanaethau, cyfreithwyr ac uwch reolwyr) mewn 21 awdurdod lleol ar draws 15 Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol. Dewiswyd awdurdodau lleol o bob rhanbarth yn Lloegr i gynhyrchu sampl yn cynnwys awdurdodau oedd ag achosion gofal â hyd cyfartalog mwy a llai na 26 wythnos.**

## Canllawiau i weithwyr cymdeithasol mewn dyfarniadau llys a gynhaliwyd yn ddiweddar

Mae nifer o ddyfarniadau llys sydd wedi cael eu cyhoeddi ers yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol yn cynnwys manylion ynglyn â'r hyn y mae'r llysoedd yn ei ddisgwyl mewn tystiolaeth gweithwyr cymdeithasol mewn achosion gofal. Mae'r rhain wedi cael eu galw'n 'ddyfarniadau canllaw' (Masson, 2014; Doughty, 2016) gan mai eu pwrpas yw rhoi cyfarwyddyd i weithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol a Cafcass, a'r llysoedd is, i wella'r dadansoddiad gwaith cymdeithasol sydd ei angen ar y llys er mwyn gwneud ei benderfyniad.

Mae sylwadau ac arsylwadau mewn dyfarniadau nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ffeithiau a'r gyfraith ynglŷn â'r penderfyniad sy'n cael ei wneud rhwng y partïon sydd gerbron y barnwr yn yr achos penodol yn cael eu galw mewn termau cyfreithiol yn *'obiter dicta'* (geiriau eraill) ac, o ganlyniad, nid ydynt yn gynsail rhwymol i lysoedd a barnwyr eraill. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae dyfarniadau'r canllawiau yn ddylanwadol iawn oherwydd maent yn dangos y safonau cyflwyno tystiolaeth y mae barnwyr yn eu disgwyl er mwyn profi achos yr awdurdod lleol.

Mae rhai o'r dyfarniadau hyn wedi cyfeirio'n benodol at ddylanwad *Deddf Hawliau Dynol 1998*, oherwydd bod penderfyniad i fynd â phlentyn oddi ar ei rieni dan orchymyn gofal yn ymwneud â hawliau aelodau o'r teulu i barch at eu bywyd preifat a theuluol dan Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Rhaid dangos felly bod y penderfyniad yn ymateb cymesur gan yr awdurdod lleol a'r llys i'r risg a achosir i'r plentyn os yw'n aros gyda'i rieni neu'n mynd yn ôl atynt.

Does dim byd newydd yn y gofyniad cymesuredd hwn mewn egwyddor (McFarlane, 2016) ond mae wedi cael ei amlygu gan y llysoedd yn ddiweddar yng nghyd-destun byrhau achosion llys, a hefyd y nifer cynyddol o blant yn cael eu derbyn i ofal nad yw eu rhieni'n wladolion Prydeinig, ac y mae awdurdodau eu gwledydd genedigol yn dilyn prosesau amddiffyn plant gwahanol i rai'r Deyrnas Unedig (Fenton-Glynn, 2016: 43-52).

## Rhai dyfarniadau canllaw

> **Asesiadau gwaith cymdeithasol**

***Re B-S [2013] EWCA Civ 1146*** [24]

Yn y dyfarniad hwn gan y Llys Apêl, roedd Llywydd yr Adran Deulu'n feirniadol o nifer o achosion a gynhaliwyd yn ddiweddar lle roedd uwch farnwyr wedi nodi 'ymarfer di-drefn' mewn dadansoddiadau gwaith cymdeithasol a gwerthusiadau barnwrol. Gwnaethpwyd y pwyntiau a ganlyn ganddo:

(i) Mae Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn nodi mai nod unrhyw ymyriad gan y wladwriaeth mewn teulu yw dod â'r teulu yn ôl at ei gilydd pan fydd amgylchiadau'n galluogi hyn, ac y dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau hyn.

(ii) Ni ellir cyfiawnhau torri pob cysylltiad rhwng plentyn a'i deulu, a thorri'r berthynas sydd rhyngddynt, oni bai bod angen gwneud hynny er lles y plentyn.

(iii) Mae deddfwriaeth (*Deddf*

[24] www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed117048

*Mabwysiadu a Phlant 2002*) yn nodi y gall y llys beidio â chydsynio â gorchymyn lleoli neu orchymyn mabwysiadu, ond dim ond os yw hynny'n 'ofynnol' er lles y plentyn, sy'n golygu ei fod yn angenrheidiol.

(iv) Dylai'r llys fabwysiadu'r dull gweithredu lleiaf ymyrrol a rhaid iddo ystyried yr holl opsiynau cyn gwneud penderfyniad.

(v) Rhaid i asesiad y llys o allu'r rhieni i gyflawni eu cyfrifoldebau i'r plentyn ystyried y cymorth a'r gefnogaeth y byddai'r awdurdodau'n eu cynnig.

(vi) Cyn gwneud gorchymyn mabwysiadu, rhaid i'r llys fod yn fodlon na all yr awdurdodau (neu eraill) ddarparu'r cymorth a'r gefnogaeth sy'n ofynnol mewn ffordd ymarferol.

(vii) Dymunai'r llys fynegi pryder gwirioneddol ynglŷn ag 'annigonolrwydd parhaus y dadansoddi a'r rhesymu' a wneir i gefnogi mabwysiadu gan awdurdodau lleol, gwarcheidwaid, ac ambell waith, gan farnwyr.

(viii) Mae dau bwynt 'hanfodol' y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir cymeradwyo cynllun gofal ar gyfer mabwysiadu: 'tystiolaeth briodol' a 'dyfarniadau wedi'u rhesymu'n ddigonol'.

(ix) Yr hyn sy'n ofynnol ym mhob cam yw 'asesiad o fanteision ac anfanteision pob opsiwn ar gyfer lleoli ac, yn fwyaf arbennig, natur a maint y risg o niwed sydd ynghlwm wrth bob un o'r opsiynau'.

(x) Yr hyn sydd ei angen gan y barnwr yw 'ymarfer cydbwyso priodol' neu 'ddadansoddiad o gymesuredd'; mae angen cydnabyddiaeth mai mabwysiadu yw'r dewis olaf ac mae angen ystyried beth sy'n cyfiawnhau mabwysiadu mewn achos penodol.

(xi) Y dasg farnwrol yw gwerthuso'r holl opsiynau, gan wneud gwerthusiad hollgynhwysol, cyfannol ac amlweddog o les y plentyn sy'n ystyried holl ffactorau negyddol a chadarnhaol, a holl fanteision ac anfanteision pob opsiwn.

Yn fwy diweddar, fodd bynnag, mae'r Arglwydd Ustus McFarlane (2017) wedi egluro bod yr 'holl' opsiynau yn golygu'r opsiynau realistig yn unig, yn hytrach na phob opsiwn y gellid meddwl amdano.

***Mae'r hyn sy'n ofynnol yr un fath â'r hyn sydd wedi bod yn ofynnol erioed: ymarfer trylwyr i gymharu pob opsiwn â phob un o'r opsiynau eraill er mwyn dod o hyd i ganlyniad cymesur er lles y plentyn.***
**(McFarlane, 2017)**

> Estyniadau i'r cyfnod o 26 wythnos

***Re S (Plentyn)* [2014] EWCC B44 (Fam)** [25]

Mewn gwrandawiad a gynhaliwyd ychydig cyn gweithredu'r terfyn amser o 26 wythnos ar gyfer achosion gofal mewn statud, dywedodd y Llywydd y gallai fod 'angen' estyniad yn unol ag adran 32(5) o *Ddeddf Plant 1989* mewn tri gwahanol gyd-destun:

> Lle gall yr achos gael ei nodi o'r dechrau, neu'n gynnar iawn o leiaf, fel un y mae'n bosibl na ellir ei ddatrys yn gyfiawn o fewn 26 wythnos. Pedair enghraifft a roddwyd oedd:

a) achosion trwm iawn yn cynnwys y dystiolaeth feddygol fwyaf cymhleth lle rhoddir cyfarwyddyd bod angen gwrandawiad ar wahân i ganfod ffeithiau

b) achosion yn cael eu clywed mewn llysoedd sy'n dilyn dull gweithredu Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol

c) achosion ag elfen ryngwladol lle mae ymchwiliadau neu asesiadau'n gorfod cael eu gwneud dramor

d) achosion lle mae anableddau'r rhieni'n golygu bod angen defnyddio asesiadau neu fesurau arbennig.

> Lle mae rhywbeth yn codi'n annisgwyl, er gwaethaf gweithdrefnau rheoli achos barnwrol priodol, cadarn a chryf, sy'n newid natur yr achos yn rhy hwyr yn y dydd i allu dod â'r achos i ben yn gyfiawn o fewn 26 wythnos. Yr enghreifftiau a roddwyd oedd:

a) achosion yn ymwneud â honiadau o esgeulustod neu niwed emosiynol lle mae honiadau o gam-drin rhywiol yn codi ar ôl hynny

b) achosion sy'n cael eu hatal yn annisgwyl oherwydd marwolaeth, salwch difrifol neu garchariad y gofalwr arfaethedig

c) achosion lle mae gofalwr arall realistig o fewn y teulu yn dod i'r amlwg yn hwyr.

> Lle mae methiant ymgyfreitha (er enghraifft, asesiad hwyr neu annigonol) ar ran un neu ragor o'r partïon yn golygu ei bod yn amhosibl cwblhau'r achos yn gyfiawn cyn pen 26 wythnos.

Ailadroddodd y Llywydd na ellir awdurdodi estyniad ar ôl 26 wythnos ar unrhyw gyfrif oni bai ei fod yn 'angenrheidiol' er mwyn galluogi'r llys i ddatrys yr achos yn 'gyfiawn'. Dim ond gofynion hanfodol cyfiawnder – proses deg – neu les y plentyn fydd yn gwneud y tro.

---

[25] www.familylawweek.co.uk/site.aspx?i=ed129022

# 3. Paramedrau arbenigedd gwaith cymdeithasol

## Y prif negeseuon

- Mae defnyddio ymchwil, ymarfer seiliedig ar dystiolaeth a sgiliau dadansoddol fel elfennau allweddol o arbenigedd gwaith cymdeithasol wedi'u sefydlu'n dda (ICSSW, 2010; Munro, 2011; Adolygiad Cyfiawnder Teuluol, 2011; Llywodraeth Cymru, 2011; Llywodraeth Cymru, 2013; NISCHR ac AHSC, 2014; *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).*
- Mae deddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn rhoi pwyslais ar ddarpariaeth gofal cymdeithasol gynaliadwy o safon uchel sy'n rhoi llesiant pobl yn ganolog i'w gofal ac sy'n hybu atal, ymyrryd yn gynnar a chanolbwyntio ar ganlyniadau i bobl. Gall ymchwil gofal cymdeithasol rhagorol ddatblygu'r sail dystiolaeth ar gyfer hyn.
- Mae *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011) yn nodi bod 'ansawdd gweithwyr proffesiynol a'u proffesiynoldeb yn hollol ganolog i greu gwasanaethau cymdeithasol sy'n ymateb i anghenion ac sy'n gynaliadwy'.
- Mae gweithwyr cymdeithasol wrth eu gwaith yn dilyn hyfforddiant cymhwyso cyffredinol ac yn datblygu eu hymarfer mewn gwahanol arbenigeddau. Bydd gan bob ymarferydd arbenigedd mewn meysydd craidd gwaith cymdeithasol fel sy'n cael ei nodi yn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer gwaith cymdeithasol.
- Mae gan weithwyr cymdeithasol fframwaith Dysgu ac Addysgu Proffesiynol Parhaus (DAPP) sy'n eu cefnogi wrth iddynt ymarfer a symud ymlaen â'u gyrfaoedd.

## Paramedrau arbenigedd gwaith cymdeithasol mewn perthynas â gwaith llys

Gwelwyd diffyg eglurder a hyder ynglyn â pharamedrau arbenigedd gwaith cymdeithasol ymhlith y rhai sy'n gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr cymdeithasol yn y llys teulu (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010; Yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol, 2011; Munro, 2011; SWTF, 2009). Felly sut allwn ni ddangos yn fwy penodol ym mha feysydd ymarfer y mae gweithiwr cymdeithasol yn arbenigwr?

O ganlyniad i'r argymhellion eang ar gyfer y gweithlu gwaith cymdeithasol a wnaethpwyd gan yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol (Yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol, 2011), gofynnwyd i Gyngor Gofal Cymru[26] ddatblygu strategaeth gweithlu a fyddai'n paratoi gweithwyr cymdeithasol ar gyfer eu rôl yn y system cyfiawnder teuluol. Byrdwn y strategaeth yw bod angen i weithwyr cymdeithasol yn y system cyfiawnder teuluol gael yr un faint o wybodaeth, sgiliau a phrofiad â'r hyn a ddisgwylir gan weithwyr cymdeithasol profiadol fel sy'n cael ei ddiffinio yn y fframwaith DAPP (gweler tudalen 48).

Mae'r tabl isod yn amlinellu sgiliau a gwybodaeth graidd sydd eu hangen ar weithwyr cymdeithasol er mwyn gweithio yn y llysoedd, yn seiliedig ar y rhai a nodwyd yn adroddiad terfynol yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol a'r sgiliau sydd ymhlyg yn yr hyn a oedd gan Syr James Munby, Llywydd yr Adran Deulu, i'w ddweud wrth drafod cyflwyno'r fersiwn diwygiedig o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (Munby, 2013b).

## Sgiliau a Gwybodaeth Graidd Cyfiawnder Teuluol

### Sgiliau craidd

- Y gallu i gyflwyno tystiolaeth glir a chadarn i'r llys, bodloni'r safonau ar gyfer dogfennau llys a bod yn ymwybodol o'r ymarfer gorau.
- Sgiliau dadansoddol cryf sy'n sail i farn broffesiynol.
- Y gallu i asesu a rheoli risg.
- Y gallu i ysgrifennu adroddiadau cryno a phenodol sy'n gwahaniaethu rhwng asesiad, dadansoddiad, gwerthusiad proffesiynol a barn.
- Sgiliau cyfathrebu a sgiliau rhyngbersonol da, gan gynnwys y gallu i gyfathrebu'n effeithiol â phlant a phobl ifanc, rhoi gwybodaeth briodol i oed plant a'u helpu i fynegi eu barn.
- Y gallu i weithio'n rhagweithiol gyda phobl eraill ac i gyfrannu – a chydweithio – fel rhan o dîm amlasiantaethol.
- Sgiliau cadw cofnodion da.

[26] Ailenwyd yn Gofal Cymdeithasol Cymru yn Ebrill 2017

## Gwybodaeth graidd

- Dealltwriaeth gadarn o gyfraith plant a sut mae'n cael ei chymhwyso i ymarfer gwaith cymdeithasol.
- Dealltwriaeth dda o'r gwasanaeth cyfiawnder teuluol a strwythur y llysoedd teulu.
- Dealltwriaeth dda o ddatblygiad plant gan gynnwys effaith cam-drin, esgeuluso, cael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni, trefniadau cyswllt â rhieni ac effaith oedi.
- Amgyffrediad da o'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus a'r gofynion ar gyfer awdurdodau lleol a gweithwyr proffesiynol eraill.
- Dealltwriaeth dda o ddatblygiad plant, gan gynnwys datblygiad normadol ac annormadol ac effaith camdriniaeth ar ddatblygiad plentyn.
- Dealltwriaeth dda o rolau a chyfrifoldebau pobl eraill yn y system.
- Dealltwriaeth o hawliau plant, prif egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac egwyddor y 'brif ystyriaeth'.
- Dealltwriaeth o amrywiaeth bywyd teuluol a phroffil plant a theuluoedd sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder teuluol.
- Gwybodaeth am faterion diogelu plant, trais domestig, ac ymwybyddiaeth o asesu/rheoli risg.
- Ymwybyddiaeth o'r canfyddiadau ymchwil diweddaraf a datblygiadau mewn ymarfer, sut i weithredu a rheoli'r broses amddiffyn plant a sut y mae'n gysylltiedig ag achosion llys.

Mae'r strategaeth gweithlu'n cynnig y dylai'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol fod yn unol â deilliannau dysgu'r Rhaglen Ymarfer Profiadol mewn Gwaith Cymdeithasol (sy'n rhan o'r fframwaith DAPP – gweler isod). Fodd bynnag, ni ddylai hyn danseilio pwysigrwydd y Rhaglen Gadarnhau i waith llys teulu. Y Rhaglen Gadarnhau, â'i phwyslais ar ddatblygu a gwella sgiliau, defnyddio dadansoddiad wrth asesu, gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol eraill, a chymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cymhleth, sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer gweithio yn y system cyfiawnder teuluol.

## Datblygu gwaith cymdeithasol fel proffesiwn

Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyngor Gofal Cymru gynt) yw'r corff sy'n gyfrifol am reoleiddio a hyfforddi gweithwyr cymdeithasol. Mae'n rhan o'r fframwaith rheoleiddio cyffredinol sydd i'w weld yn *Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.* Mae gwaith cymdeithasol wedi bod yn broffesiwn i raddedigion er 2004, â mynediad drwy radd gyntaf neu radd meistr yn seiliedig ar y canlynol:

- Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol, Gofal Cymdeithasol Cymru
- Y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol
- Datganiadau Meincnodi Pwnc yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Gwaith Cymdeithasol.

Mae Fframwaith Asesu yn amlinellu'r dull o asesu myfyrwyr gwaith cymdeithasol, ond yn caniatáu i raglenni cymhwyso ddatblygu cwricwla sy'n darparu profiad dysgu integredig a chydlynol. Mae rhaglenni cymhwyso'n cynnwys symiau hafal o ddysgu academaidd ac ymarferol ac maent yn cael eu darparu drwy bartneriaethau rhwng prifysgol a chyflogwr awdurdod lleol.

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chyngor Gofal Cymru yn cydnabod ei bod yn bwysig bod myfyrwyr yn gallu symud ymlaen yn rhwydd o fod yn fyfyrwyr i fod yn weithwyr cymdeithasol hyderus a chymwys, felly maent wedi cyhoeddi canllawiau ar y tair blynedd gyntaf o ymarfer (AGGCC a Chyngor Gofal Cymru, 2017).[27] Mae'r canllawiau'n amlinellu model ymarfer lle gall Gweithwyr Cymdeithasol sydd Newydd Gymhwyso adeiladu ar hyfforddiant cymhwyso cychwynnol a chael eu cefnogi gan eu cyflogwr wrth iddynt symud i ymarfer proffesiynol. Mae'r tair blynedd gyntaf yn dod i ben â'r Rhaglen Gadarnhau ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso, sef rhan gyntaf y fframwaith Dysgu ac Addysgu Proffesiynol Parhaus (DAPP).[28] Erbyn hyn mae'n ofynnol i weithwyr cymdeithasol sy'n cymhwyso ar ôl 2016 gwblhau'r Rhaglen Gadarnhau

[27] https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/cymwysterau-gwaith-cymdeithsol

[28] https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/cymwysterau-gwaith-cymdeithsol

yn llwyddiannus er mwyn adnewyddu eu cofrestriad proffesiynol.

Mae'r fframwaith DAPP (gweler isod) yn gyfres o raglenni ôl-gymhwyso sy'n galluogi gweithwyr cymdeithasol ledled Cymru i ddatblygu rhagor o sgiliau ac arbenigeddau tra maent yn ymarfer ac yn symud ymlaen drwy eu gyrfaoedd. Mae pob rhaglen yn cael ei dilysu gan brifysgol ac yn werth hyn a hyn o gredydau academaidd. Mae datblygu'r fframwaith yn cefnogi blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru sydd wedi'u hamlinellu yn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith gweithredu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011): er mwyn sicrhau gweithlu gwaith cymdeithasol proffesiynol, cymwys, hyderus a diogel.

## OFFERYN 4

**Bwriad Offeryn 4 yw helpu gweithwyr cymdeithasol i fyfyrio ar eu meysydd arbenigedd eu hunain – ond bydd yn ddefnyddiol i weithwyr proffesiynol eraill hefyd i'w helpu i egluro eu dealltwriaeth o baramedrau arbenigedd gwaith cymdeithasol.**

## Y Fframwaith Cymwysterau ar gyfer Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru

Datblygwyd y fframwaith cymwysterau cyffredinol ar gyfer gwaith cymdeithasol yn dilyn trafodaethau gyda chyflogwyr, y llywodraeth, addysgwyr, gweithwyr cymdeithasol ac eraill. Mae'n berthnasol i'r ystod eang o rolau a gweithgareddau gwaith cymdeithasol felly mae llawer iawn o hyblygrwydd yng nghynnwys y rhaglen.

- Mae addysg gwaith cymdeithasol ar y lefel gymhwyso yn darparu sylfaen i alluogi gweithwyr cymdeithasol i weithio mewn gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru â'i phwyslais ar wasanaeth sy'n canolbwyntio ar y teulu ac, o ganlyniad, sy'n galw am wybodaeth a sgiliau ym maes gwaith plant a gwaith oedolion.
- Mae'r ddwy flynedd gyntaf o ymarfer yn ysgogi gwybodaeth a sgiliau cyffredinol tra'n darparu profiad mewn meysydd ymarfer arbenigol dan oruchwyliaeth ofalus.
- Mae'r fframwaith DAPP yn fodel cynyddol sy'n darlunio'r wybodaeth a'r sgiliau a ddisgwylir gan

weithwyr cymdeithasol ar wahanol adegau yn eu gyrfaoedd.

- Ar lefel Ymarferydd Profiadol (dair blynedd ar ôl cymhwyso) disgwylir i weithwyr cymdeithasol ymgymryd â gwaith cymhleth mewn meysydd arbenigol. (Gweler isod am fanylion y fframwaith.)

## Gosod y safonau ar gyfer ymarfer gwaith cymdeithasol

Mae gan Ofal Cymdeithasol Cymru ddyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd drwy hybu a sicrhau safonau uchel o ran ymddygiad ac ymarfer ymhlith gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol. Yn ogystal â'i rôl reoleiddio, mae gan Ofal Cymdeithasol Cymru hefyd ran allweddol i'w chwarae wrth gynllunio gweithlu a datblygu proffesiynoldeb ymarferwyr, yn bennaf drwy gymwysterau, hyfforddiant a rhannu gwybodaeth.

Mae Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2017[29] wedi cael eu cymeradwyo'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru a'r rheolau hyn yw'r sail gyfreithiol ar gyfer cofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol. Rhaid i weithwyr cymdeithasol fod wedi eu cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru dan Ran 1 y Gofrestr. Mae'r Gofrestr yn rhoi gweithwyr cymdeithasol ar lefel debyg i broffesiynau gwasanaeth cyhoeddus eraill fel dysgu a nyrsio.

